

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel Arfarniad o Gynaliadwyedd

Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd

**Paratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan
Enfusion ac RPA**

Chwefror 2019

CYNNWYS

| | Tudalen |
|---|-----------|
| 1.0 CYFLWYNIAD | 2 |
| Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel | 2 |
| Arfarniad o Gynaliadwyedd | 3 |
| Diben yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn a Strwythur Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 5 |
| 2.0 DULLIAU a CHAMAU GWEITHREDU | 6 |
| Datblygu Cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 6 |
| Sefydlu'r Dulliau Gweithredu | 8 |
| Cyd-destun a Phennu Nodweddion Sylfaenol | 10 |
| Nodi Materion a Chyfleoedd | 15 |
| Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 17 |
| Arfarnu Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel | 22 |
| Ymgynghori | 23 |
| Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Llesiant | 23 |
| 3.0 ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD FFYNIANT I BAWB: CYMRU CARBON ISEL | 24 |
| Cyflwyniad | 25 |
| Ffyniannus a Diogel | 25 |
| Iach ac Egniol | 30 |
| Uchelgeisiol ac yn Dysgu | 32 |
| Unedig a Chysylltiedig | 33 |
| Arfarniad o Gynaliadwyedd Cryno o Weithredu Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel | 34 |
| Awgrymiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel | 35 |
| 4.0 CASGLIAD a CHAMAU NESAF | 37 |

1.0 CYFLWYNIAD

Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel

1.1 O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% yn 2050, yn erbyn gwaelodlin 1990. Mae'n rhaid i'r Gweinidogion osod targedau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040, a chyllideb garbon bob 5 mlynedd, gan ddechrau yn 2016 - 2020 ac yn gorffen yn 2046 - 2050. Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, mae'n rhaid i Weinidogion gyhoeddi adroddiad ar bolisiau a chynigion sy'n nodi sut byddant yn bodloni gofynion y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel ("y Cynllun") yw'r adroddiad ar gyfer cyfnod cyntaf y gyllideb garbon (2016-20).

1.2 Mae'n rhaid i'r corff cyngori arbenigol annibynnol, Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC), ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau a'r targedau. Datblygwyd Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 ar sail cyngor gan UKCCC, ac fe'u pasiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2018¹. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gosod y targedau dros dro a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf. Y targedau dros dro yw:

- 2020 – gostyngiad o 27% yn erbyn y gwaelodlin
- 2030 – gostyngiad o 45%
- 2040 – gostyngiad o 67%

Mae'r gyllideb garbon gyntaf yn para rhwng 2016 a 2020, ac mae'n gofyn am ostyngiad cyfartalog o 23% yn erbyn y gwaelodlin; mae'r ail gyllideb garbon (2021-25) yn gofyn am ostyngiad cyfartalog o 33% yn erbyn gwaelodlin 1990.

1.3 Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r polisiau ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf (2016-20). Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) yn cydnabod bod Cymru eisoes dros hanner ffordd trwy gyfnod y gyllideb garbon gyntaf ac nad oes llawer o gyfle i effeithio ar allyriadau hyd at 2020 trwy weithredu polisiau newydd. Hefyd, mae'r Cynllun yn cynnwys cynigion ar gyfer polisiau y gellir ymchwilio iddynt a'u datblygu ymhellach er mwyn cyflwyno'r ail gyllideb garbon (2021-25) a chyllidebau carbon yn y dyfodol.

¹ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/emissions/?lang=cy>

Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 1.4 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses systematig sy'n ceisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy asesu i ba raddau y bydd cynllun neu brosiect arfaethedig yn helpu i gyflawni amcanion perthnasol. Mae Datblygu Cynaliadwy yn ymwneud â'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, er mwyn ceisio cyflawni'r nodau llesiant.² Mae'r Ddeddf yn cyflwyno diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith ar gyfer cyrff cyhoeddus trwy'r saith nod llesiant, gan nodi sut dylent gydweithio, fel y dangosir yn Ffigur 1.1.

Ffigur 1.1: Nodau Llesiant a Dulliau Gweithredu³



² <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

³ <http://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

- 1.5 Mae Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol (2017)⁴ yn gosod ymrwymïadau allweddol i lesiant a datblygu cynaliadwy mewn cyd-destun hirdymor mewn pedair thema allweddol, sef:

Ffigur 1.2: Themâu Allweddol ac Amcanion Llesiant

| Amcanion Llesiant | | | |
|---|--|--|---|
| Cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant | Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol | Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial | Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth |
| Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg | Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb | Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw | Darparu seilwaith modern a chysylltiedig |
| Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd | Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell | Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid | Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd |
| Ffyniannus a Diogel | Iach ac Egnïol | Uchelgeisiol ac yn dysgu | Unedig a Chysylltiedig |
| Themâu Allweddol | | | |

- 1.6 Nododd Ffyniant i Bawb bum maes blaenoriaeth yn wreiddiol: y Blynyddoedd Cynnar; Tai; Gofal Cymdeithasol; Iechyd Meddwl; Sgiliau a Chyflogadwyedd. Wrth adolygu camau gweithredu a chynnydd yn ystod 2018⁵, penderfynodd Llywodraeth Cymru y bydd datgarboneiddio hefyd yn faes ar gyfer camau gweithredu ar draws y llywodraeth, ac mae wedi'i gynnwys yn chweched maes blaenoriaeth. Mae hyn yn cydnabod arwyddocâd manteision lleihau allyriadau ac y bydd yr effeithiau cadarnhaol yn eang ac yn cyfrannu at wella iechyd a llesiant a hyrwyddo cyfleoedd economaidd newydd.
- 1.7 Mae'r asesiadau effaith statudol, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol, yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn adnoddau sy'n dangos sut mae Gweinidogion Cymru yn bodloni gofynion cyfreithiol.⁶ Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ofynnol profi polisiâu a chynlluniau trwy asesiadau effaith eraill (Newid Hinsawdd; Asesiad Effaith Rheoleiddiol; Iechyd; a Phrawfesur Gwledig) ac mae wedi'u dwyn ynghyd yn un Asesiad Effaith Integredig.

⁴ <https://beta.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol-datganiad-llesiant-2017>

⁵ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/ffyniant-i-bawb-adroddiad-blynyddol-2018.pdf>

⁶ Deddf Cydraddoldeb 2010; Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

- 1.8 Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol⁷ yn broses statudol sy'n ceisio gwarchod yr amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth baratoi cynlluniau a rhaglenni penodol, o'u cymharu â dulliau amgen rhesymol. Gall y gofyniadau ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol gael eu cynnwys yn y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd, er enghraifft, fel sy'n wir am ddeddfwriaeth cynllunio datblygu⁸.
- 1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol o'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad iddo fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol statudol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ystyried egwyddorion a dull gweithredu'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn ogystal ag egwyddorion ac amcanion datblygu cynaliadwy a llesiant.

Diben yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn a Strwythur Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 1.10 Diben yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yw darparu asesiad annibynnol a gwrthrychol o'r Cynllun a helpu i ddangos bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi'r ddogfen a'i chynnwys mewn datblygiadau polisi yn y dyfodol. Mae'r polisiâu presennol sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun wedi bod yn destun asesiadau amrywiol, gan gynnwys Asesiadau Effaith statudol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol lle bo hynny'n berthnasol trwy'r broses datblygu polisiâu. Felly, nod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yw ystyried effeithiau gweithredu'r polisiâu ar y cyd yn y Cynllun ac yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yw ystyried y rhyngberthynas rhwng pynciau cynaliadwyedd ac ymchwilio i effeithiau cronus, synergidd ac eilaidd. Mae'n ceisio gwneud awgrymiadau ynglŷn â sut gallai'r Cynllun gyfrannu at y nodau llesiant, lle bynnag y bo modd, gan ganolbwyntio'n benodol ar lunio cynlluniau'r dyfodol.
- 1.11 Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi datgan nad oes llawer o gyfle i gamau gweithredu polisiâu newydd effeithio ar allyriadau hyd at 2020.⁹ Fodd bynnag, mae'r Cynllun wedi cynnwys rhai cynigion arfaethedig er mwyn ymchwilio ymhellach i gamau polisi yn y dyfodol, ac mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn wedi ystyried effeithiau arwyddocaol tebygol lle bo hynny'n bosibl. Felly, gall y dulliau a ddefnyddir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn helpu i gwmpasu'r cylch nesaf o gynlluniau a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd nesaf, ac mae'n bosibl y bydd modd ymchwilio i gynigion polisi amgen trwy'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 1.12 Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, mae dulliau gweithredu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael eu disgrifio yn Adran 2. Mae Arfarniad o

⁷<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/contents/made> Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol Cymru (2004)

⁸ Deddf Cynllunio (Cymru) 2015; Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

⁹ <https://www.theccc.org.uk/publication/building-low-carbon-economy-wales-setting-welsh-carbon-targets/> (t.8-9)

Gynaliadwyedd y Cynllun yn cael ei drafod yn Adran 3, ac mae Adran 4 yn amlinellu'r casgliadau a'r camau nesaf.

2.0 DULLIAU a CHAMAU GWEITHREDU

Datblygu Cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 2.1 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan o raglen helaeth ar draws y llywodraeth ar bob lefel er mwyn sicrhau bod y broses reoleiddio a'r polisiâu ar gyfer datgarboneiddio yn helpu i gyflawni'r Nodau a'r Amcanion Llesiant. Nid oes unrhyw ofyniad i'r Cynllun fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol neu'n Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cwblhau Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn darparu asesiad annibynnol o'r cynllun yn ei gyfanrwydd a helpu i ddangos bod Nodau ac Amcanion Llesiant yn rhan annatod o'r broses gynllunio. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn seiliedig ar egwyddorion a dulliau gweithredu'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd /Asesiad Amgylcheddol Strategol, egwyddorion ac amcanion datblygu cynaliadwy a llesiant (fel y'u nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), ynghyd ag Amcanion Llesiant a Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, ac ymwybyddiaeth o'r gofynion ar gyfer Aseidiadau Effaith.
- 2.2 Mae dull gweithredu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dilyn y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol sydd wedi'i sefydlu – cwmpasu; dulliau amgen ac asesu; adrodd – fel yr amlinellir yn Ffigur 2.1, fel y canlyn:

Ffigur 2.1: Amlinelliad o Broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

| Cam y Broses | Dulliau a ddefnyddir ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun |
|---|--|
| 1 Datblygu cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (cyd-destun a chynlluniau a rhaglenni eraill; nodweddion sylfaenol; Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) | Mae cynlluniau a rhaglenni perthnasol gyda'u hamcanion a'r nodweddion sylfaenol wedi defnyddio gwybodaeth allweddol o ffynonellau cenedlaethol. Nodwyd materion a chyfleoedd allweddol sy'n berthnasol i gylch dylanwad y Cynllun o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni a'r gwaelodlin. Datblygwyd amcanion Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n sylfaen i arfarniad y Cynllun trwy ystyried y prif faterion a chyfleoedd a nodwyd; yr egwyddor lesiant; dulliau gweithredu; nodau ac amcanion; a'r Aseidiadau Effaith. |
| 2 Arfarnu'r Cynllun (Gwellu Dulliau Amgen ac Asesu Effeithiau) | Mae'r Cynllun yn cynnwys polisiâu presennol ac yn awgrymu cynigion ar gyfer polisiâu'r dyfodol a fydd yn cael eu hystyried ymhellach yn ystod y cylch cynllunio nesaf. Felly, nid oes unrhyw ddulliau amgen ymarferol i'w hystyried trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar hyn o bryd. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn defnyddio crebwyll proffesiynol a'r wybodaeth sylfaenol i asesu'r Cynllun yn erbyn y fframwaith |

| | |
|--|---|
| | cynaliadwyedd/amcanion llesiant. Mae'r asesiad yn ceisio nodi unrhyw effeithiau mawr/bach, negyddol/cadarnhaol, uniongyrchol/anuniongyrchol ¹⁰ , ehangach/cronnus ¹¹ , gwrthweithiol/synergaid ¹² posibl, gan nodi unrhyw nodweddion ansicr fel bylchau mewn gwybodaeth. Ar gyfer unrhyw effeithiau niweidiol a nodir, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ceisio awgrymu mesurau lliniaru er mwyn osgoi, lleihau neu wneud iawn am effeithiau sylweddol. |
| 3 Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Mae adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'i baratoi ar ffurf dulliau gweithredu ac adroddiadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Cyhoeddir yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn ochr yn ochr â'r Cynllun ym mis Mawrth 2019. |

- 2.3 Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ochr yn ochr â Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018¹³. Canolbwyntiodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar effeithiau lefel uchel dewisiadau ar gyfer bodloni gofynion y ddwy gyllideb garbon gyntaf ar gyfer y cyfnodau 2016-20 a 2021-25, a thargedau allyriadau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddadansoddiad annibynnol, ond manteisiwyd ar y cyfle i gysoni proses yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol â phroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn gwella integreiddio a hyrwyddo dulliau gweithredu cydweithredol.
- 2.4 Datblygwyd adnodd matrices cynaliadwyedd manwl a nododd y manteision neu'r anfanteision posibl a allai deillio o'r newid carbon isel a'r llwybrau a nodir ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ymchwiliwyd i bob mantais/anfantais berthnasol [effaith bosibl - cadarnhaol/negyddol] yn erbyn rhestr o 44 o ffactorau ar gyfer newid a oedd yn berthnasol i Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 a'r Cynllun. Roedd y dull gweithredu trawsbynciol a chydweithredol hwn yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 2.5 Datblygwyd yr adnodd matrices cynaliadwyedd ar ôl ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy gyda Dulliau Gweithredu, a Nodau ac Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o Strategaeth Genedlaethol 2017. Hefyd, roedd y matrices yn ystyried integreiddio Asesiadau Effaith Llywodraeth Cymru os oeddent ar gael.

¹⁰ Unrhyw agwedd ar gynllun a allai gael effaith (cadarnhaol neu negyddol), ond nad yw'n ganlyniad uniongyrchol cynllun arfaethedig.

¹¹ Effeithiau cynyddrannol sy'n deillio o gyfuniad o ddwy effaith unigol neu fwy, neu o ryngweithio rhwng effeithiau unigol – a all arwain at effaith synergaid (h.y. yn fwy na swm yr effeithiau unigol), neu unrhyw effaith gynyddol sy'n debygol o ddod i'r amlwg dros amser.

¹² Mae'r rhain yn deillio o ryngweithio rhwng nifer o effeithiau nes bod yr effeithiau cyfunol yn fwy na swm eu heffeithiau unigol.

¹³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/1303/made>

- 2.6 Roedd y Cynllun yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddisgrifio. Defnyddiwyd y dull sydd wedi'i sefydlu wrth fynd i'r afael â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd ymarferol sy'n ystyried dulliau gweithredu ac amserlenni'r Cynllun. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesiad lefel uchel annibynnol o'r Cynllun. Bydd y cylch nesaf o baratoi cynlluniau yn ystyried dewisiadau polisi eraill, gan gynnwys ymchwilio trwy Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 2.7 Gan mai'r Cynllun yw'r adroddiad cyntaf sydd ei angen o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gyda pholisïau presennol a chynigion arfaethedig ar gyfer cynlluniau'r dyfodol, mae dull gweithredu cymesur wedi'i fabwysiadu ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd y polisïau presennol yn destun gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiad effaith yn ystod y broses o'u datblygu. Mae hyn yn cynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Statudol, er enghraifft, y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau (NRP 2017), copi drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP 2017), a chopi drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Materion ac Opsiynau ac Opsiwn a Ffebrir 2018). Rhagwelir y gallai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol hwn helpu i gwmpasau Arfarniadau yn y dyfodol, gan gynnwys profi dewisiadau polisi a nodwyd trwy asesu cymharol er mwyn llywio penderfyniadau.

Sefydlu'r Dulliau Gweithredu

- 2.8 Mae'r dulliau gweithredu wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu'r Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, fel yr amlinellir yn Ffigur 2.2.

Ffigur 2.2: Sefydlu'r Dulliau Gweithredu

| Dulliau Gweithredu | Datblygu'r Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
|--------------------|---|
| Hirdymor | <p>Mae'r cyllidebau carbon a'r Cynllun yn ystyried ffactorau hirdymor a'r gofyniad cyffredinol i gyrraedd targed 2050. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y tymor byr hyd at 2020 ond mae'n cynnwys dull gweithredu sy'n edrych yn fwy hirdymor hyd at 2050.</p> <p>Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn adolygu cynlluniau/rhaglenni eraill a thystiolaeth sylfaenol sy'n ystyried y sefyllfa tymor byr, tymor canolig a hirdymor, gan gynnwys cymariaethau a thueddiadau'r dyfodol. Mae hyn yn llywio'r broses o nodi materion a chyfleoedd sy'n helpu i ddatblygu fframwaith amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n sylfaen i asesiad y Cynllun.</p> |
| Atal | <p>Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau adrannau Llywodraeth Cymru sydd â swyddogaethau a dyletswyddau gwahanol ar gyfer nodi a datrys materion neu broblemau er mwyn eu hatal neu sicrhau nad ydynt yn gwaethygu.</p> <p>Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn seiliedig ar egwyddor yr hierarchaeth liniaru ar gyfer mynd i'r afael ag</p> |

| | |
|----------------------------|---|
| | <p>effeithiau negyddol posibl: osgoi; lleihau; unioni/adsefydlu/adfer; gwneud iawn – osgoi neu atal yw'r dull a ffefrir.</p> <p>Bydd y Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn destun rhaglen monitro ac adolygu er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn yr amcanion, gan gynnwys mesurau diogelu ataliol.</p> |
| <p>Integreiddio</p> | <p>Mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu gan weithgorau'r adrannau er mwyn nodi polisiâu a fydd yn helpu i sicrhau'r newid carbon isel fel rhan o ddull gweithredu integredig. Felly, mae cynrychiolwyr o ar draws y llywodraeth wedi llywio'r broses o ddatblygu cynigion polisi er mwyn sicrhau bod effeithiau ar eraill yn cael eu hystyried a bod eu hamcanion yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau.</p> <p>Cafodd llwybrau allyriadau a ffactorau trawsbynciol eu hystyried wrth ddatblygu'r adnodd matrices cynaliadwyedd. Datblygwyd dull gweithredu a ystyriodd sectorau polisi unigol a'r rhyngberthynas rhyngddynt. Wrth ddatblygu'r Cynllun, ystyriwyd y goblygiadau ar gyfer Nodau ac Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gan amlygu dull gweithredu integredig.</p> <p>Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn broses sy'n integreiddio ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol mewn fframwaith o amcanion. Mae'n ceisio mynd i'r afael â materion a chyfleoedd a nodwyd, gan gynnwys unrhyw synergeddau posibl. Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystyried y rhyngberthynas rhwng pynciau fel nodwedd sylfaenol. Hefyd, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi ystyried y goblygiadau ar gyfer Nodau ac Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â gofynion yr Aseidiadau Effaith – gan amlygu dull gweithredu integredig.</p> |
| <p>Cydweithio</p> | <p>Ni all y Cynllun greu economi carbon isel a bodloni targedau'r gyllideb garbon heb gydweithio ag eraill. Mae'n gallu pennu gofynion, annog, cefnogi a hwyluso camau polisi gan eraill, a helpu i ddatblygu dulliau cydattegol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol a helpu i gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Cynllun yn gallu ystyried goblygiadau cenedlaethol/rhyngwladol a goblygiadau cymunedol lleol y newid carbon isel. Mae'n cael ei strwythuro mewn ffordd sy'n dangos canlyniad ar gyfer sectorau, ond mae'r polisiâu i sicrhau canlyniadau yn cael eu rhoi ar waith ar draws y sectorau, ac mae'n nodi'n glir y dull cydweithredol cadarn sydd ei angen.</p> <p>Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi nodi materion a chyfleoedd allweddol trwy adolygu cynlluniau, rhaglenni a thystiolaeth sylfaenol gan eraill er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.</p> |

| | |
|---------------------------|--|
| <p>Cyfranogiad</p> | <p>Mae cynnwys pobl yn hanfodol i'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Gan fod y cyfle i effeithio ar allyriadau hyd at 2020 trwy gyflwyno camau polisi newydd yn gymharol brin, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y camau gweithredu sydd eu hangen i leihau allyriadau hyd at 2030. Roedd y ddogfen ymgynghori Cyflawni Ein Llwybr Carbon Isel Hyd At 2030 yn gofyn am safbwyntiau yn ystod cyfnod ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos rhwng 12 Gorffennaf a 4 Hydref 2018¹⁴, a oedd yn cynnwys digwyddiadau a gwybodaeth ategol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd wrth ddatblygu'r Cynllun. Hefyd, cafwyd cais am dystiolaeth a oedd yn llywio cyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. Cyhoeddir y Cynllun ym mis Mawrth 2019.</p> <p>Gan fod y cyfle i effeithio ar allyriadau yng Nghymru hyd at 2020 trwy gyflwyno camau polisi newydd yn gymharol brin, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd cyntaf hwn yn ddull ymarferol o gynnwys pobl. Mae'r camau cwmpasu ac arfarnu cychwynnol yn cael eu crynhoi yn adroddiad cyntaf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a gyhoeddir ar yr un pryd â'r Cynllun. Bydd cyfleoedd ar gael i ddefnyddio proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i ymchwilio i'r dewisiadau arfaethedig ar gyfer polisiâu'r dyfodol. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gwneud cyfraniad mawr at gwblhau asesiadau cymharol o ddewisiadau strategol, gan gynnwys trwy weithdai sy'n sicrhau cyfranogiad gan sectorau gwahanol a rhanddeiliaid allweddol.</p> |
|---------------------------|--|

Cyd-destun a Gwaelodlin

2.9 Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi adolygu cynlluniau a rhaglenni allweddol eraill er mwyn nodi unrhyw amcanion a gwybodaeth sylfaenol y dylid eu hystyried yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys y dogfennau allweddol canlynol:

- Ffyniant i Bawb: Strategaeth Genedlaethol 2017 ac Adroddiad Blynyddol 2018
- Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi 2017
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach 2017
- Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg 2017
- Strategaeth Tlodi Plant 2015
- Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016-2019
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Strategol Cymru 2016
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21
- Dyfodol Ynni Craffach i Gymru 2016

¹⁴ <https://beta.llyw.cymru/llwybr-carbon-isel-i-gymru>

- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru 2011
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru¹⁵
- Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (cam Materion a Dewisiadau 2018)
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2017
- Ein Strategaeth (Coetiroedd i Gymru) 2018
- Cynllun Morol Cenedlaethol (ymgyngoriad drafft 2017-2018)
- Y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol 2017
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018
- Cynlluniau Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru a Basn Afon Dyfrdwy 2015-2021
- Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru 2017
- Cyflawni Cymru Ddigidol 2010; Datganiad Fframwaith Strategol Cynhwysiant Digidol 2016
- Strategaeth Twf Glân y DU 2017, diweddarwyd ym mis Ebrill 2018

2.10 Mae'r dull gweithredu sydd wedi'i sefydlu ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys dadansoddi'r nodwedd sylfaenol sy'n berthnasol i gylch dylanwad y cynllun sydd i'w asesu. Mae hyn yn helpu i nodi materion a chyflleoedd allweddol y gellir eu defnyddio i ddatblygu fframwaith amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n sylfaen i'r asesiad. Trefnwyd y nodweddion sylfaenol yn unol â themâu allweddol y Strategaeth Genedlaethol a gwybodaeth yn y cynlluniau/rhaglenni a restrir uchod a'r ffynonellau allweddol canlynol eraill:

- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017)
- Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (2017) Crynodeb ar gyfer Cymru
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2016)
- Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru¹⁶

Nodweddion Sylfaenol: Ffyniannus a Diogel

2.11 Mae'n ymddangos bod y tuedd hirdymor ar gyfer twf economaidd bydeang o tua 2% y flwyddyn yn newid o wledydd y gorllewin tuag at Asia. Ers y dirwasgiad yn 2008, mae cyfraddau twf yn y DU a Chymru wedi lleihau'n sylweddol wrth i gynhyrchiant arafu. Mae wedi cael effaith benodol ar berfformiad Cymru o safbwynt Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)¹⁷. Yn hanesyddol, mae Cymru wedi perfformio'n waeth na rhannau eraill o'r DU o

¹⁵ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-09/strategaeth-drafnidiaeth-cymru.pdf>

¹⁶ <https://gov.wales/statistics-and-research/?lang=cy>

¹⁷ ONS Regional gross value added (income approach) (2018) <https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/datasets/regionalgrossvalueaddedincomeapproach>

safbwynt GVA¹⁸. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r farchnad lafur wedi perfformio'n well na rhannau eraill o'r DU¹⁹.

- 2.12 Mae data ar gyfer y 3 mis hyd at fis Tachwedd 2018 yn dangos bod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yr un fath yn union â chyfradd y DU yn ei chyfarwydd (75.8%). Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ers dechrau cadw cofnodion, ac yn hanesyddol mae cyfradd gyflogaeth Cymru wedi bod yn is na chyfartaledd y DU²⁰. Roedd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru 3.9% o'r boblogaeth economaidd weithgar rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2018, sef 0.9% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd y DU ar gyfer yr un cyfnod yn 4.0%, o'i gymharu â 4.3% y flwyddyn flaenorol²¹. Roedd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 21%, sef 2.6% yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd y DU yn 21% hefyd, sef gostyngiad o 0.2% yn unig na'r flwyddyn flaenorol²². Roedd enillion wythnosol gros cyfartalog cyflogaeth llawn amser yng Nghymru wedi cynyddu ychydig i £509 rhwng mis Ebrill 2017 a mis Ebrill 2018, o'i gymharu â chyfartaledd o £569 yn y DU.²³ Mae cyfradd gymharol uchel o bobl wedi cyrraedd oed ymddeol²⁴.
- 2.13 Roedd trosiant y sector Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yn £1.8 biliwn yn sgil gweithgareddau uniongyrchol yn 2017, sef 4% o gyfanswm trosiant y DU yn yr economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy²⁵. Roedd cyfanswm cyflogaeth yng Nghymru yn sgil gweithgarwch uniongyrchol yn yr economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy yn 9,300 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, sef 4.4% o gyfanswm cyflogaeth y DU yn yr economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy. Mae gan Gymru botensial mawr i greu ynni, gan gynnwys ynni o ffynonellau adnewyddadwy, yn enwedig ar lefel leol²⁶.
- 2.14 Mae anghydraddoldebau mewn llesiant yn gysylltiedig ag ystod o nodweddion personol a ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Er bod lefelau tlodi ychydig yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y DU, o safbwynt cyfoeth cyffredinol mae lefelau'n uwch na'r rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i Dde Lloegr²⁷. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd tlodi plant cymharol yn y DU yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2015 a 2021, gan godi o 29.7% i 36.6%. Mae dau brif ffactor yn gyfrifol am hyn. Yn gyntaf, mae cyfran gymharol fach o incwm teuluoedd incwm isel gyda phlant yn dod o enillion. Felly, pan fydd enillion yn cynyddu, mae

¹⁸ Ibid

¹⁹ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

²⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol [Regional labour market statistics in the UK: January 2019](https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/january2019)
<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/january2019>

²¹ Ibid

²² Ibid

²³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Employee earnings in the UK: 2018

<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2018>

²⁴ Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018)

<https://www.ons.gov.uk/help/localstatistics>

²⁵ <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/finalesimates/2017>

²⁶ Ibid

²⁷ <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf>

incwm canolrifol yn tueddu i gynyddu'n gynt nag incwm aelwydydd incwm isel gyda phlant. Yn ail, mae incwm yr aelwydydd hyn yn cael ei effeithio gan y toriadau cyson i fudd-daliadau²⁸.

- 2.15 Mae lefelau tlodi yng Nghymru wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi 1 y cant yn ôl y data diweddaraf, o'i gymharu â 23% dros y pum cyfnod blaenorol²⁹. Mae canran y pensynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn codi dros y 4 cyfnod diwethaf (gan gyrraedd 20 y cant rhwng 2014-15 a 2016-17) ond mae'n parhau i fod yn is na lefelau canol a diwedd y 1990au. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd tlodi plant cymharol yn cynyddu'n sylweddol ym mhob rhanbarth o'r DU rhwng 2013-15 a 2019-21. Bydd y cynnydd yn ardal De Lloegr yn llai na mewn ardaloedd eraill, ond hyn yn oed yn yr ardal honno, rhagwelir y bydd tlodi plant cymharol yn cynyddu o leiaf 4 y cant. Rhagwelir y bydd cynnydd o 8 y cant o leiaf yn rhanbarthau gogledd Lloegr, canolbarth Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon³⁰.
- 2.16 Mae aelwydydd yn y DU yn gwario 80% o'u costau ynni ar wresogi gofod a dŵr yn y cartref³¹. Yn 2014, amcangyfrifwyd bod 30% o aelwydydd yng Nghymru wedi dioddef tlodi tanwydd, ond lleihaodd yr amcangyfrifon i 23% yn 2016 o ganlyniad i gynnydd cymedrol mewn incwm aelwydydd, gwella effeithlonrwydd ynni, lleihau defnydd ynni a gostyngiad ym mhrisiau olew a nwy³². Amcangyfrifir y bydd lefelau cenedlaethol tlodi tanwydd yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr ond yn llai nag yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon³³.
- 2.17 Mae peryglon newid hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar Gymru: llifogydd a newid arfordirol; iechyd, llesiant a chynhyrchiant; prinder dŵr; newidiadau i ecosystemau, pridd a bioamrywiaeth. Mae seilwaith eisoes yn agored i beryglon hinsawdd amrywiol, a rhagwelir y byddant yn cynyddu o safbwynt amllder a difrifoldeb. Llifogydd yw'r perygl hirdymor mwyaf³⁴.

Nodweddion Sylfaenol: Iach ac Egnïol

- 2.18 Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf, o bosibl gan tua 5%, ac y bydd mewnfudo yn parhau i ryw raddau³⁵. Rhagwelir y bydd canran y boblogaeth dros 65 a 75 oed yn cynyddu; bydd nifer y bobl ifanc (o dan 16 oed) yn parhau i fod tua 18%. Mae'r cynnydd mewn

²⁸ <https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R136.pdf>

²⁹ Adroddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau - Household Below Average Income (HBAI)(2018): <https://gov.wales/statistics-and-research/households-below-average-income/?lang=cy>

³⁰ <https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R136.pdf>

³¹ BEIS Energy Consumption in the UK (2018): https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729317/Energy_Consumption_in_the_UK_ECUK_2018.pdf

³² Llywodraeth Cymru (2017) Cynhyrchu Amcangyfrifon o Lefelau Tlodi Tanwydd yng Nghymru: 2012-2016: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160711-production-estimated-levels-fuel-poverty-wales-2012-2016-en.pdf>

³³ Ibid

³⁴ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

³⁵ Ibid

disgwyliad oes yn debygol o barhau ond mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â hyn – gall y cynnydd fod yn isel iawn neu'n gynnydd o 15%. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn tyfu'n gynt na'r boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys aelwydydd o faint llai³⁶.

- 2.19 Yn gyffredinol, mae disgwyliadau oes yn cynyddu, ond mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig. O safbwynt mathau gwahanol o salwch, mae'r tueddiadau yn gymysg: mae mathau o salwch fel cyflyrau'r galon ac arthrits wedi lleihau ychydig dros y 10 mlynedd diwethaf; mae mathau o salwch meddwl wedi cynyddu. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, gallai nifer y bobl â dementia gynyddu dros 50,000 erbyn 2025. Mae'r tueddiadau yn gymysg o safbwynt ffordd o fyw iach yng Nghymru: mae lefelau smygu yn parhau i leihau ond mae'n ymddangos y bydd lefelau gordewdra yn cynyddu ychydig³⁷.
- 2.20 Mae cysylltiad agos rhwng cymunedau iach ac amgylcheddau iach. Mae Cymru, ynghyd â gweddill y DU a gwledydd eraill, wedi methu cyrraedd ei thargedau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol³⁸. Bydd bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru o dan ragor o bwysau yn y dyfodol ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa fyd-eang. Er bod ansawdd dŵr a rhai elfennau o ansawdd aer wedi gwella, mae llawer o adnoddau naturiol a chryfder ecosystemau Cymru yn parhau i ddirywio (SoNaRR 2016). Mae yna bryderon ynglŷn â chryfder a gallu i ddarparu gwasanaethau a sicrhau manteision yn y dyfodol³⁹.
- 2.21 Mae dirywiad y diwydiannau trwm wedi lleihau allyriadau o rai llygryddion, fel deunydd gronynnol; fodd bynnag, mae allyriadau o'r byd diwydiant yn ffynhonnell arwyddocaol o hyd, ac roeddent yn gyfrifol am tua 29% o allyriadau Cymru yn 2016.⁴⁰ Y diwydiant cynhyrchu haearn/dur a phuro petrolewm sy'n gyfrifol amdanynt yn bennaf. Mae ffynonellau allyriadau eraill, fel trafniadaeth, amaethyddiaeth a systemau gwresogi domestig yn peri mwy o bryder. Amcangyfrifir bod llygredd aer yn cyfrannu at 2000 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru⁴¹.
- 2.22 Roedd nifer yr adeiladau (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu uchel o ddirodded llifogydd gan afonydd a'r môr yn 61,108 yn 2014⁴². Ar gyfartaledd, mae llifogydd yn costio tua £200 miliwn⁴³ y flwyddyn i Gymru. Mae Basn Afon Gorllewin Cymru a Basn Afon Dyfrdwy yn cynnwys rhai cyrff dŵr sydd wedi methu ennill statws ecolegol da neu well. Addasu ffisegol yw'r ffactor mwyaf, ac mae llygredd o lofeydd segur ac mewn ardaloedd

³⁶ Ibid

³⁷ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

³⁸ Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) Datganiad Llesiant 2017/18

³⁹ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

⁴⁰ Stocrestr Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 1990-2016

⁴¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Robert Abernethy (Chwefror 2018) Papur Briffio Ymchwil – Ansawdd Aer

⁴² <https://gov.wales/statistics-and-research/well-being-wales/?lang=cy>

⁴³ Ibid

gwledig yn ffactorau arwyddocaol, yn ogystal â llygredd o ddŵr gwastraff⁴⁴
⁴⁵.

- 2.23 Erbyn 2050, gall lliffoedd afonydd cyfartalog yn y gaeaf gynyddu 10-15%, ond yn yr haf a'r hydref gallent leihau dros 50% a chymaint ag 80% mewn rhai arddaloedd. Gall sychderau a llifogydd fod yn fwy cyffredin. Mae'r carbon yn y pridd wedi bod yn sefydlog mewn tir wedi'i wella ers 30 mlynedd ac mewn coetiroedd ers tua 10 mlynedd. Mae cynnydd da wedi'i wneud ym maes lleihau gwastraff, ond mae angen gwneud mwy o hyd.⁴⁶

Nodweddion Sylfaenol: Uchelgeisiol ac yn Dysgu

- 2.24 Mae gan Gymru arbenigedd perthnasol sylweddol yn y sector Addysg Uwch ac mae wedi sefydlu economi arwyddocaol yn y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Llwyddodd y sector Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy i greu trosiant o dros £1.8 biliwn trwy weithgareddau uniongyrchol yn 2017, sef 4% o gyfanswm trosiant y DU yn yr economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy⁴⁷. Mae bwllch yn bodoli mewn llwyddiant addysgol rhwng y grwpiau lleiaf difreintiedig a'r grwpiau mwyaf difreintiedig⁴⁸. Mae cenhadaeth ein cenedl yn canolbwyntio ar godi safonau i bawb, lleihau'r bwllch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n destun balchder ac yn ennyn hyder y cyhoedd⁴⁹. Mae'r broses o hyrwyddo prentisiaethau wedi cynyddu, gan gynnwys cydnabod pwysigrwydd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg)⁵⁰ sy'n arbennig o bwysig ar gyfer datblygu economi carbon isel.

Nodweddion Sylfaenol: Unedig a Chysylltiedig

- 2.25 Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi sefydlogi ers 1991, er bod heriau o hyd o ran sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r iaith ar ôl gadael addysg orfodol⁵¹. Mae gan Gymru hanes cyfoethog sy'n cael ei adlewyrchu'n gryf yn amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae dwyn a difrodi treftadaeth, a dirywiad rhai nodweddion hanesyddol yn broblemau ar hyn o bryd⁵².
- 2.26 Mae'r broses o ddarparu seilwaith band eang yn datblygu'n gyflym ar ôl dechrau'n arafach nag yng ngweddill y DU, yn rhannol oherwydd y lefel uchel o gartrefi gwledig y mae'n anos eu cysylltu â band eang gwifrog traddodiadol. Mae 34% o'r boblogaeth sy'n oedolion wedi'u heithrio'n

⁴⁴ Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2015) Crynodeb o Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015 – 2021

⁴⁵ Llywodraeth Cymru (Hydref 2015) Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy 2015 – 2021

⁴⁶ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

⁴⁷ <https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/finalestimates/2017>

⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2016-2017

⁴⁹ Llywodraeth Cymru (2017) Ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg yng Nghymru 2017-2021

⁵⁰ Llywodraeth Cymru (2016) Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg: Cynllun Cyflawni i Gymru

⁵¹ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2016-2017

⁵² Llywodraeth Cymru (Mai 2013) Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru

ddigidol (oherwydd diffyg seilwaith, dewis personol, neu statws economaidd-gymdeithasol)⁵³.

- 2.27 Er gwaethaf cynnydd yn y defnydd o'r rheilffordd, mae tueddiadau presennol yn awgrymu mai cerbydau preifat fydd y dull mwyaf cyffredin o deithio yng Nghymru – o leiaf yn y tymor byr a'r tymor canolig⁵⁴. Mae tuedd ar i lawr o safbwynt nifer y bobl sy'n dewis cerdded neu seiclo ar gyfer teithiau byr, ac mae angen newid hyn⁵⁵. Mae mwy o bobl yn defnyddio'r rheilffordd, ond nid oes digon o gapasiti i fodloni'r galw mewn rhai ardaloedd⁵⁶.

Nodi Materion a Chyfleoedd Allweddol

- 2.28 Mae'r agwedd sydd wedi'i sefydlu at yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystyried amcanion cynlluniau/rhaglenni perthnasol eraill a'r nodweddion sylfaenol er mwyn nodi materion a chyfleoedd allweddol sydd o fewn cylch dylanwad y cynllun i'w asesu. Wedyn, defnyddir y rhain i helpu i ddatblygu Fframwaith amcanion cynaliadwyedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, wedi'i deilwra i'r cynllun sy'n destun ymchwil. Mae'r materion a'r cyfleoedd allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun wedi'u crynhoi yn Nhabl 2.1, ac maent wedi'u trefnu yn unol â'u prif effeithiau ar Themâu Allweddol y Strategaeth Genedlaethol, fel y canlyn:

Tabl 2.1: Materion a Chyfleoedd Allweddol

| Ffyniannus a Diogel |
|---|
| Hyrwyddo buddsoddiad yn yr economi gyda thwff cynhwysol wedi'i adeiladu ar seiliau cadarn, diwydiannau cryf y dyfodol, a rhanbarthau cynhyrchiol |
| Mynd i'r afael â lefelau diweithdra a'r incwm sylfaenol isel trwy ddarparu swyddi newydd, medrus |
| Parhau i fuddsoddi yn y sector ynni adnewyddadwy a charbon isel a bod yn un o arweinwyr y sector |
| Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, cynyddu amrywiaeth economaidd a chynnal cystadleurwydd busnesau |
| Cefnogi economi twristiaeth a hamdden gref a gofalu am asedau amgylcheddol a threftadaeth |
| Mynd i'r afael â lefelau tlodi tanwydd |
| Lleihau lefelau tlodi mewn cymunedau, a mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb ar hyn o bryd rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig cymdeithas |
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a helpu i atal y newid yn yr hinsawdd |
| Iach ac Egniol: Pobl a Chymunedau |
| Lleihau'r bwch mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, a mynd i'r afael â'r cynnydd mewn salwch iechyd meddwl |

⁵³ Llywodraeth Cymru (2018) Adroddiad Cynnydd a Rhagolwg Cynhwysiant Digidol

⁵⁴ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

⁵⁵ Llywodraeth Cymru (2016-2017) Cerdded a Seiclo yng Nghymru: Teithio Llesol 2016-2017

⁵⁶ Llywodraeth Cymru (2016-2017) Trafnidiaeth Rheilffordd 2016-2017

| |
|---|
| ymysg y boblogaeth sy'n oedolion |
| Addasu i boblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd cysylltiedig mewn materion iechyd fel dementia |
| Hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, gan gynnwys cerdded a seiclo |
| Gwella mynediad i dai fforddiadwy o ansawdd da i bawb |
| Iach ac Egniol: Amgylcheddau Gwell |
| Gwarchod a gwella bioamrywiaeth ar gyfer pobl a bywyd gwyllt trwy sicrhau ecosystemau iach, gweithredol a chryf |
| Rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy a helpu i fynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd, gan gynnwys cynyddu effeithlonrwydd ynni |
| Amddiffyn pobl ac asedau yn erbyn perygl llifogydd a sicrhau bod ecosystemau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn well |
| Gwella ansawdd dŵr a defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr |
| Gwella ansawdd y pridd a rheoli'r tir mewn ffordd gynaliadwy |
| Lleihau allyriadau o gerbydau a gwella ansawdd aer trwy hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio mewn ceir/tryciau |
| Uchelgeisiol ac yn Dysgu |
| Lleihau'r bwch mewn llwyddiant addysgol rhwng y grwpiau lleiaf a mwyaf difreintiedig |
| Parhau i ddatblygu sgiliau arloesol yn y sector ynni adnewyddadwy a charbon isel |
| Unedig a Chysylltiedig |
| Hyrwyddo diwylliant Cymru a'r defnydd o'r iaith Gymraeg |
| Cynyddu cysylltedd a thrafnidiaeth gynaliadwy, lleihau dibyniaeth ar geir preifat |
| Parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol fel bod cymunedau sydd wedi'u hallgáu yn cael mynediad i wasanaeth band eang cyflym |
| Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a chydlynus mewn ardaloedd gwledig a threfol |
| Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol |

Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 2.29 Datblygwyd yr adnodd matrices cynaliadwyedd (Lefel 1) trwy ystyried 32 o effeithiau tebygol (cadarnhaol neu negyddol) yn erbyn 44 o ffactorau ar gyfer newid a gwmpaswyd sy'n gysylltiedig â phob un o'r llwybrau allyriadau a'r sectorau perthnasol. Mae'r asesiad manwl ar gyfer Lefel 2 wedi ystyried y manteision uniongyrchol ac ehangach tebygol (ac anfanteision os oes effeithiau negyddol yn berthnasol) sy'n deillio o'r newidiadau a ddisgrifiwyd yn Lefel 1. Mae'r effeithiau posibl (newidiadau a manteision/anfanteision) wedi'u hystyried yn erbyn 12 Amcan Llesiant Llywodraeth Cymru.
- 2.30 Mae fframwaith strategol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyfateb i Lefelau 4-5 yn yr adnodd matrices cynaliadwyedd ac mae'n darparu fframwaith lefel uchel priodol i brofi'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru sy'n nodi sut bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei defnyddio i gyflwyno rhaglen y Llywodraeth a chyfrannu at y Nodau cenedlaethol. Mae pob un o Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei ddiffinio ymhellach gan gwestiynau sy'n cynorthwyo'r arfarniad – er mwyn trefnu'r asesiad ar sail ffactorau allweddol sy'n berthnasol i'r Cynllun ac osgoi cyfrif ffactorau mwy nag unwaith gan fod llawer ohonynt yn drawsbynciol. Datblygwyd y cwestiynau er mwyn cynorthwyo'r arfarniad o'r effeithiau/newidiadau a nodwyd yn Lefel 1 o'r adnodd matrices cynaliadwyedd, yr adolygiad o'r cynllun/rhaglen a'r nodweddion sylfaenol, ac er mwyn adlewyrchu'r materion/cyfleoedd allweddol sy'n berthnasol i'r Cynllun.
- 2.30 Mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a ddefnyddiwyd i asesu'r Cynllun wedi'i gyflwyno yn Nhabl 2.2.

Tabl 2.2: Fframwaith Strategol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

| Cwestiynau Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Cynorthwyo'r Arfarniad Strategol | Nodau Llesiant |
|---|--|
| 1 Cynorthwyo ac annog pobl a busnesau i helpu i sbarduno ffyniant i bawb | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cynorthwyo diogelwch swyddi a nifer y swyddi trwy helpu i wella cynhyrchiant, cynyddu enillion a lleihau costau? ▪ Creu cyfleoedd ar gyfer sectorau: Ynni; Trafnidiaeth; Adeiladau; Diwydiant a Busnes; Amaethyddiaeth; Defnydd Tir/Coedwigaeth; y Sector Cyhoeddus; Gwastraff? ▪ Creu cyfleoedd i wella cynhyrchiant busnesau? ▪ Creu cyfleoedd i leihau costau gweinyddol busnesau carbon isel? ▪ Creu cyfleoedd i leihau costau biliau ynni ar gyfer eiddo preswyl a masnachol? ▪ Creu cyfleoedd i wella diogelwch ynni a lleihau achosion o amharu ar y cyflenwad? ▪ Cefnogi a hyrwyddo arloesedd busnes ar gyfer carbon isel er mwyn cynyddu cynhyrchiant a lleihau costau? ▪ Cefnogi arallgyfeirio ymysg busnesau? ▪ Cefnogi hamdden a thwristiaeth gynaliadwy? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Cyfrifol ar Lefel Fyd- eang</p> |
| 2 Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth i bawb er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ystyried costau'r economi carbon isel ar gyfer aelwydydd ac enillion pobl? ▪ Ystyried costau'r economi carbon isel a helpu i leihau'r bwlch cyflog sy'n gysylltiedig â rhyw neu sgilliau? ▪ Cynnal a chefnogi cyfleoedd i wella'r economi wledig, gan gynnwys BBaChau, microfusnesau a chysylltedd digidol? ▪ Creu cyfleoedd i leihau tlodi tanwydd, gan ganolbwyntio ar gostau gwresogi a thrafnidiaeth? ▪ Cefnogi cyfleoedd i gynyddu cyflogaeth ar gyfer pob grŵp oed gweithio? | <p>Llewyrchus Cydnerth Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus</p> |

| | |
|---|--|
| <p>3 Hyrwyddo a chefnogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd</p> | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Creu, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr? ▪ Creu, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i leihau'r galw am ynni a gwella diogelwch y cyflenwad? ▪ Creu, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i wella'r broses o ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy i gynhyrchu ynni? ▪ Cefnogi buddsoddiad mewn technolegau glanach? ▪ Helpu i warchod a gwella tir ac asedau o allyriadau nwyon tŷ gwydr – cynnyrch cynydu, coedwigaeth, adeiladau? ▪ Cefnogi dull ecosystem ar gyfer bioamrywiaeth a gwasanaethau – aer, dŵr ac ansawdd pridd ac adnoddau, dal a storio carbon? ▪ Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o wastraff? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Cyfrifol ar Lefel Fyd- eang</p> |
| <p>4 Cyfrannu at wella iechyd da a llesiant i bawb</p> | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed – plant a phobl hŷn? ▪ Cyfrannu at leihau lefelau tlodi plant trwy helpu i leihau tlodi tanwydd? ▪ Cyfrannu at wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy ddiogelu swyddi a busnesau trwy'r newid carbon isel? ▪ Gwella iechyd corfforol trwy newid ansawdd aer a lleihau mathau o salwch anadlol? ▪ Cyfrannu at wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy gefnogi darpariaeth a mynediad i dai/adeiladau o ansawdd da? ▪ Cyfrannu at wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy ddarparu mannau gwyrdd/ardaloedd hamdden? ▪ Cyfrannu at wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy hyrwyddo rhwydweithiau trafnidiaeth integredig gan gynnwys seilwaith gwyrdd? ▪ Cyfrannu at wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy helpu i gynnal cysylltedd – trafnidiaeth a digidol? ▪ Diogelu a gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy reoli peryglon iechyd sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd ac amodau tywydd mwy eithafol – difrod erydu, llifogydd a gwynt; gwres hefyd? ▪ Cyfrannu at wella iechyd meddwl trwy leihau llygredd golau a llygredd sŵn; cadw ardaloedd llonyddwch? ▪ Cyfrannu at iechyd meddwl trwy gefnogi teuluoedd a chymunedau cydlynus, rhwydweithiau cymdeithasol, datblygu sgiliau, a sicrhau cyfraniad at benderfyniadau lleol? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus</p> |

| 5 Cyfrannu at ddatblygu cymunedau iachach er mwyn gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb | |
|--|--|
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cefnogi mynediad i dai o ansawdd da trwy sicrhau diogelwch, effeithlonrwydd a chostau ynni? ▪ Creu cyfleoedd a chefnogi mynediad i gyflogaeth sgil uchel briodol er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn? ▪ Creu cyfleoedd i leihau i ba raddau y mae cymunedau yn agored i niwed yn ystod y newid carbon isel, a chynyddu cydlyniant cymunedol trwy gynyddu'r ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth? ▪ Hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy i gynhyrchu ynni er mwyn gwella'r ymdeimlad o hunaniaeth? ▪ Amddiffyn adeiladau, treftadaeth ac asedau diwylliannol yn erbyn difrod ansawdd aer ac er mwyn gwella hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn? ▪ Cefnogi'r broses o ddarparu mannau gwyrdd ac ardaloedd hamdden? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu Cyfrifol ar Lefel Fyd- eang</p> |
| 6 Cyfrannu at ddatblygu amgylcheddau gwell | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfrannu at ddiogelu a gwella nodweddion ac ansawdd y dirwedd/morwedd? ▪ Lleihau'r galw am ynni, yn enwedig y sectorau mwynau, dŵr a gwastraff? ▪ Creu cyfleoedd i ddefnyddio ynni adnewyddadwy er mwyn gwella'r amgylchedd – tirwedd, bioamrywiaeth a dŵr? ▪ Gwella cryfder a hyblygrwydd ecosystemau, gan gynnwys dal a storio carbon? ▪ Helpu i wella bioamrywiaeth ac ecosystemau ar y tir a'r môr er budd bywyd gwylt a phobl, gan gynnwys rheoli peryglon sy'n deillio o erydu, llifogydd a gwynt, a hyrwyddo seilwaith gwyrdd? ▪ Cyfrannu at wella ansawdd aer ar gyfer bioamrywiaeth? ▪ Cyfrannu at wella ansawdd dŵr a defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau dŵr? ▪ Cyfrannu at wella ansawdd y pridd a rheoli adnoddau'r tir yn fwy cynaliadwy, gan gynnwys cynnyrch cnydau a choedwigaeth? ▪ Cyfrannu at ddefnydd mwy cynaliadwy o fwynau a rheoli gwastraff? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu Cyfrifol ar Lefel Fyd- eang</p> |

| | |
|--|--|
| <p>7 Cyfrannu at sicrhau bod gan bawb y sgiliau ar gyfer byd sy'n newid ac annog dysgu i fyw</p> | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Creu cyfleoedd a helpu i ddatblygu sgiliau ym maes technoleg carbon isel i bawb, gan geisio lleihau anghydraddoldeb ar sail oedran, rhyw neu anabledd? ▪ Cefnogi busnesau trwy fynediad i gyflogaeth sgil uchel briodol a rhwydweithiau cymorth (gwybodaeth)? ▪ Cefnogi Ymchwil a Datblygu er mwyn hyrwyddo economi carbon isel arloesol a blaengar? ▪ Cyfrannu at gyfleoedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gwireddu eu potensial? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu Cyfrifol ar Lefel Fyd- eang</p> |
| <p>8 Helpu i ddatblygu cymunedau cryf, diwylliant ac iaith</p> | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cefnogi diogelwch swyddi a mynediad i dai da – er mwyn helpu i gynnal cymunedau cryf? ▪ Cyfrannu at deuluoedd a chymunedau cydlynus? ▪ Cyfrannu at benderfyniadau lleol? ▪ Cefnogi a gwella traddodiadau a diwylliant trwy helpu i ddiogelu treftadaeth, hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn, a thirwedd? ▪ Cyfrannu at reoli peryglon sy'n deillio o ddifrod erydu, llifogydd a gwynt – gan leihau i ba raddau y mae cymunedau yn agored i niwed a chynyddu cydnerthedd? ▪ Cyfrannu at lesiant yr iaith Gymraeg yn y dyfodol? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</p> |
| <p>9 Cyfrannu at ddarparu seilwaith modern a chysylltiedig</p> | |
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Helpu i ddarparu seilwaith cydnerth cynaliadwy – trafndiaeth neu ddigidol – er mwyn cefnogi rhwydweithiau cymdeithasol? ▪ Helpu i ddarparu seilwaith cydnerth cynaliadwy – trafndiaeth neu ddigidol – er mwyn cefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg? ▪ Helpu i ddarparu seilwaith cydnerth cynaliadwy – trafndiaeth neu ddigidol – er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau a chyfrannu at benderfyniadau lleol? ▪ Creu a chefnogi cyfleoedd i wella darpariaeth a mynediad i wasanaethau digidol, gan gynnwys cysylltedd digidol symudol? ▪ Creu a chefnogi cyfleoedd i wella darpariaeth a mynediad i drafndiaeth integredig gynaliadwy, gan gynnwys seilwaith gwyrdd? ▪ Cyfrannu at y broses o reoli peryglon i seilwaith sy'n deillio o ddifrod erydu, llifogydd a gwynt - ynni; trafndiaeth; telathrebu? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</p> |

| 10 Cyfrannu at hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd | |
|---|--|
| <p>A fydd y Cynllun/Polisi yn...</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Hyrwyddo a chefnogi cynhyrchion a gwasanaethau carbon isel; ac ynni adnewyddadwy, ynni cydnerth a seilwaith telathrebu i'w allforio – er mwyn hyrwyddo Cymru fel arweinydd yr economi carbon isel? ▪ Cefnogi a helpu i hwyluso'r broses o symud nwyddau i mewn ac allan o Gymru? ▪ Cefnogi cysylltiadau â'r byd ehangach, gan gynnwys hyrwyddo traddodiadau a diwylliant; y defnydd o'r iaith Gymraeg; a hamdden a thwristiaeth? ▪ Cefnogi teithiau awyr cynaliadwy? | <p>Llewyrchus Cydnerth Iachach Mwy Cyfartal Cymunedau Cydlynus Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu</p> |

Arfarnu Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel

- 2.32 Nodwyd yr effeithiau tebygol (cadarnhaol/negyddol; uniongyrchol/ehangach; uchel/canolog/isel) ar gyfer pob llwybr allyriad yn ôl sector trwy ddefnyddio'r ffactorau a nodwyd yn Lefelau 1 a 2 ac asesiad manwl er mwyn llywio'r gwaith o osod cyllidebau carbon a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 2.33 Cafodd pob polisi neu grwpiau o bolisiâu presennol eu harfarnu yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan ddefnyddio barn broffesiynol ar sail y dystiolaeth sylfaenol. Disgrifiwyd natur yr effeithiau cynaliadwyedd/llesiant tebygol fel rhan o esboniad yr arfarniad (gan gynnwys effeithiau mawr/bach, cadarnhaol/negyddol, hyd (tymor byr, tymor canolog neu hirdymor), parhaol/ dros dro, eilaidd⁵⁷, cronnus⁵⁸ a synergaid⁵⁹), ynghyd ag unrhyw ragdybiaethau neu ansicrwydd.
- 2.34 Os oes modd, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gwneud awgrymiadau neu argymhellion i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu hyrwyddo cyfleoedd i wella effeithiau cadarnhaol neu niwtral. Mae esboniad cryno o'r arfarniad yn adrodd ar unrhyw effeithiau arwyddocaol a nodwyd ac effeithiau gweddilliol tebygol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei lywio gan y wybodaeth a'r data gorau sydd ar gael; fodd bynnag, mae bylchau data ac ansicrwydd yn bodoli, ac nid oes modd darogan effeithiau yn gywir bob amser, yn enwedig ar gyfer asesiad lefel uchel o'r math a ddefnyddir ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn.
- 2.35 Cafodd y crynodeb o ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer pob polisi neu grwpiau o bolisiâu presennol eu hystyried ar gyfer adrannau

⁵⁷ Unrhyw agwedd ar gynllun a allai gael effaith (cadarnhaol neu negyddol), ond nad yw'n ganlyniad uniongyrchol cynllun arfaethedig.

⁵⁸ Effeithiau cynyddrannol sy'n deillio o gyfuniad o ddwy effaith unigol neu fwy, neu o ryngweithio rhwng effeithiau unigol – a all arwain at effaith synergaid (h.y. yn fwy na swm yr effeithiau unigol), neu unrhyw effaith gynyddol sy'n debygol o ddod i'r amlwg dros amser.

⁵⁹ Mae'r rhain yn deillio o ryngweithio rhwng nifer o effeithiau nes bod yr effeithiau cyfunol yn fwy na swm eu heffeithiau unigol.

perthnasol y Cynllun. Coladwyd canfyddiadau cyffredinol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd, gan ystyried effeithiau cronus posibl ac unrhyw fylchau allweddol. Cafodd canfyddiadau cyffredinol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd eu hystyried yn unol â themâu allweddol y Strategaeth Genedlaethol fel y canlyn:

- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac Egnïol
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu
- Unedig a Chysyllfiedig

Ymgynghori

- 2.34 Yn ôl Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, cymharol brin yw'r cyfleoedd i effeithio ar allyriadau hyd at 2020⁶⁰ trwy ddefnyddio camau polisi newydd. Felly, mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau presennol – a chynigion ar gyfer y dyfodol sydd wedi'u profi trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (Lefelau 4-5). Roedd Cyflawni ein Llwybr Carbon Isel hyd at 2030 (dogfen ymgynghori 12 Gorffennaf – 4 Hydref 2018) yn gofyn am awgrymiadau ar gyfer y camau sydd angen eu cymryd, ac yn cynnwys syniadau ar gyfer lleihau allyriadau erbyn 2030. Rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn berthnasol i'r broses o baratoi'r Cynllun, gan gynnwys datblygu awgrymiadau ar gyfer polisiau arfaethedig yn y dyfodol.

Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Llesiant

- 2.35 Mae'r dulliau gweithredu ar gyfer creu cynllun ac arfarnu cynaliadwyedd mewn ffordd integredig yn dangos sut mae'r gwaith wedi ceisio cydymffurfio â'r Ddyletswydd Llesiant. Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Dulliau Gweithredu wedi'u sefydlu fel rhan o'r broses o greu'r cynllun a'r broses asesu, gan gynnwys trwy weithgorau ar draws y sectorau. Mae'r ffactorau ar gyfer newid ac effeithiau tebygol polisiau a chynigion wedi'u mapio yn erbyn yr Amcanion Llesiant. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cysoni amcanion strategol ar gyfer profi'r cynllun drafft â'r Amcanion Llesiant a'r Dulliau Gweithredu, gan gyflwyno'r canfyddiadau cyffredinol yn unol â Themâu Allweddol y Strategaeth Genedlaethol.

⁶⁰ <https://www.theccc.org.uk/publication/building-low-carbon-economy-wales-setting-welsh-carbon-targets/> (t.8-9)

3.0 ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD FFYNIANT I BAWB: CYMRU CARBON ISEL

Cyflwyniad

- 3.1 Roedd pob polisi yn y Cynllun yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd trwy ddefnyddio Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hefyd, nododd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd unrhyw effeithiau sylweddol a allai fod yn berthnasol i gynigion ar gyfer astudiaethau a chamau polisi wrth greu cynlluniau yn y dyfodol. Gall hyn helpu i gwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd nesaf pan fydd cyfleoedd ystyrion ar gael o bosibl i ymchwilio i ddewisiadau rhesymol ar gyfer camau polisi.
- 3.2 Fel yr eglurwyd o'r blaen, roedd polisiâu presennol yn destun gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiadau effaith, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hefyd, ystyriwyd rhyngweithio rhwng meysydd polisi. Roedd Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018 wedi'u llywio gan fatrics cynaliadwyedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer asesu'r Cynllun - fel y dangosir yn Ffigur 2.3. Felly, mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu fel rhan o broses gyffredinol o brosesau asesu integredig a chyson. Ceir cadarnhad o hyn trwy'r asesiad strategol annibynnol a nodir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn.
- 3.3 Mae canfyddiadau cryno'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u cyflwyno yn yr adrannau canlynol yn unol â Themâu Allweddol yr Amcanion Llesiant er mwyn ystyried y cydberthynas a'r effeithiau cronus yn gliriach.

Ffyniannus a Diogel

Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- 1 Cefnogi ac annog pobl a busnesau i helpu i hybu ffyniant i bawb
- 2 Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth i bawb er mwyn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol
- 3 Ysgogi a chefnogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

- 3.4 Trwy roi lle blaenllaw i Dwf Glân, Arloesi a Sgiliau, mae'r Cynllun wedi cydnabod bod cyflogaeth ac incwm digonol yn hanfodol ar gyfer pobl, cymunedau a'u hiechyd a'u llesiant. Mae'r Cynllun yn datgan bod datgarboneiddio yn ymwneud â mwy na lleihau allyriadau yn unig, a bod modd sicrhau manteision ehangach ar yr un pryd. Mae'r cynllun yn cydnabod bod heriau yn bodoli, er enghraifft cysoni pŵer a thrafnidiaeth gynaliadwy, a bod angen adfer bioamrywiaeth a sicrhau cydnerthedd ecosystemau. Trwy nodi'r heriau hyn a'r effeithiau negyddol posibl yn gynnar yn y broses o greu'r Cynllun, bydd y broses o greu cynlluniau eraill yn gallu archwilio'r posibilïadau ar gyfer osgoi neu leihau effeithiau negyddol o'r fath a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer effeithiau cadarnhaol.

- 3.5 Erbyn hyn, mae datgarboneiddio yn un o Feysydd Blaenoriaeth Ffyniant i Bawb (2018), felly dylai dull gweithredu sy'n seiliedig ar garbon isel fod yn rhan annatod o'r gwaith o sicrhau twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy bob maes polisi. Mae'r Cynllun yn egluro sut mae'n gallu creu'r amodau cywir ar gyfer Twf Glân, ac mae'n cynnwys ymrwymadau clir ar gyfer y Contract Economaidd⁶¹, Arloesi a Sgiliau. Mae pob un o'r rhain yn cysylltu twf economaidd ag economi a chymdeithas garbon isel, gan ddangos effeithiau cadarnhaol bach a allai fod yn synergaid ac yn gronnu o'n fwy hirdymor trwy fanteisio ar gyfleoedd a hyrwyddo rhagor o ddatblygiad.
- 3.6 Mae cynllunio gofodol, defnydd tir a morol yn feysydd polisi trawsbynciol sydd â rolau cryf i gefnogi amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gyda'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol iawn i gyflogaeth a thwf economaidd. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n⁶² cynnwys hierarchaeth ynni cynllunio: mae cloddio am lo, ffracio, ac olew/nwy ar y tir at ddibenion cynhyrchu ynni ar waelod yr hierarchaeth. Diwygiwyd y polisi'n ddiweddar i gyfyngu ar gloddio glo ac ni fydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi gan reoli allyriadau nwyon tŷ gwydr o gloddio glo (carbon deuocsid a symiau bychain o fethan yn bennaf).
- 3.7 Gall y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol⁶³ helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfeirio datblygiad newydd i leoliadau cynaliadwy, ei gwneud hi'n ofynnol i gael llai o allyriadau ac annog dylunio cynaliadwy i fod yn rhan o ddatblygiad newydd; bydd hyn hefyd yn cefnogi buddsoddiad mewn technolegau glân gyda'r potensial am effeithiau posibl. Mae polisiâu cryf yn datblygu i gefnogi ynni adnewyddadwy ac annog gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effeithiau cadarnhaol i amcanion carbon isel a chynnydd mewn cydnerthedd i newid yn yr hinsawdd.
- 3.8 Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru⁶⁴ sydd ar y gweill yn ceisio deall cyfleoedd i gydleoli gweithgareddau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bob sector yn cynnwys ynni adnewyddadwy (tonnau, llanw, gwynt). Mae'n ceisio cynllunio ar gyfer darparu pysgodfeydd a dyframaeth yn gynaliadwy; hamdden hefyd - gyda'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol ar gyfer diogelwch swyddi a nifer y swyddi drwy bolisi trawsbynciol ar gyfer Twf Glas. Mae'r Cynllun Morol yn cydnabod twf arwyddocaol posibl y dyfodol mewn rhai sectorau, yn enwedig y sector carbon isel - gan ddangos cysylltiad cryf â'r Cynllun.

⁶¹ <https://gov.wales/newsroom/businessandconomy/2018/180521-new-economic-contract-for-businesses-seeking-welsh-government-support>

⁶² https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru-argraffiad-10?_ga=2.150210800.732158325.1552908723-1725831130.1542805267 (Rhagfyr 2018)

⁶³ Cam ymgynghori Ebrill 2018 Materion ac opsiynauac Opsiwn a Ffefrir <https://beta.llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-y-prif-faterion-opiynau-ar-opiwn-a-ffefrir?>

⁶⁴ Drafft ymgynghori Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Rhagfyr 2017) <https://beta.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-drafft?>

- 3.9 Drwy ymgorffori arweinyddiaeth, cydweithio a chynnwys yng nghanol y Cynllun a cheisio dangos gweithrediad carbon isel yn effeithiol yn y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru'n sefydlu cymorth ac anogaeth i bobl a busnesau drwy esiampl ac arweinyddiaeth gref, yn cynnwys drwy astudiaethau achos arddangoswr.
- 3.10 Mae polisiâu a chynigion yn debygol o sicrhau effeithiau cadarnhaol, yn cynnwys cyfathrebu cynnydd drwy'r Gynhadledd Flynyddol, ac mae'r cynnig ar gyfer cyflenwi trydan adnewyddadwy i adeiladau'r sector cyhoeddus erbyn 2020 a gwres carbon isel erbyn 2030 yn gosod esiampl ac ymrwymiad cryf a fydd yn cael eu hystyried yn fanylach yn y rownd gynllunio nesaf. Yn gyffredinol, mae effeithiau cadarnhaol wedi'u nodi sy'n debygol o fod yn synergaid a chronnol yn yr hirdymor, fel ymwybyddiaeth, cydweithio, a chynnydd o ran gweithredu, yn cynnwys defnyddio technolegau newydd.
- 3.11 Mae'r sectorau Pŵer (cynhyrchu trydan) a Diwydiant yn gyfrifol am gyfrannau mawr o allyriadau Cymru – 34% a 29% yn eu trefn yn 2016⁶⁵. Mae gan Gymru rai pŵerau datganoledig, ond mae llawer o'r rheoliadau, contractau a pholiisiau'r farchnad yn cael eu pennu ar lefel y DU a'r UE. Mae gan Lywodraeth Cymru ysgogiadau cyfyngedig ar gyfer dylanwadu'n uniongyrchol ac mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd trafod yn barhaus â Llywodraeth y DU i hyrwyddo buddiannau Cymru a'r angen i gydweithio â'r sector Diwydiant. Bydd Llywodraeth Cymru'n cael mwy o bwerau cydsynio, cynllunio a thrwyddedu yn 2019 a bydd hyn yn galluogi mwy o ddylanwad dros lefelau allyriadau o'r sector pŵer ar gyfer datblygiadau dros 350MW, gyda'r potensial am effeithiau cadarnhaol.
- 3.12 Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd⁶⁶ yn cydnabod bod gan Gymru gyfran uwch o allyriadau o'r sectorau anodd i'w lleihau na gweddill y DU. Bydd arbedion ynni pellach, a thrydaneiddio gwres a thwf posibl bioynni, angen arloesi yn y tymor hwy - o ran technoleg a sut mae'r diwydiant yn gweithredu a buddsoddi. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd diwydiant ynni dwys yn parhau i elwa ar Gytundebau Newid yn yr Hinsawdd hyd at 2023 - y nod yw diogelu diwydiannau o'r fath lle mae costau trethi'n gallu effeithio ar y gallu i gystadlu a chymell gwelliannau ym maes effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon - gan ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl.
- 3.13 Mae'r Cynllun yn egluro bod angen iddo ganfod cydbwysedd amserol ar gyfer targedau a rheoleiddio o fewn bwerau datganoledig i helpu i annog busnesau i ddatgarboneiddio tra'n helpu i sicrhau bod costau i fusnesau'n aros yn ymarferol a chystadleuol. Mae hyn yn dangos bod effeithiau negyddol posibl wedi'u rhagweld a bod mesurau lliniaru'n cael eu datblygu.
- 3.14 Mae arloesedd wedi'i gynnwys yng nghanol y Cynllun ac mae ei bwysigrwydd i'r sector Diwydiant yn cael ei ailadrodd. Bydd y cynnig i sefydlu

⁶⁵ Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales and N Ireland 1990-2016, available at http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=3

⁶⁶ Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales and N Ireland 1990-2016, available at http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=3

Grŵp Datgarboneiddio dan arweiniad y Diwydiant yn 2019 yn helpu i hyrwyddo arloesedd a chydweithio gyda'r potensial am effeithiau cadarnhaol, a nodi mesurau lliniaru addas ar gyfer effeithiau negyddol i ddiwydiant a busnes. Yn yr un modd, mae'r cynnig ar gyfer Lleihau Cymorth Allyriadau Diwydiannol wedi 2020 i fusnesau carbon ddwys yn cydnabod bod Cymru'n wahanol ac yn nodi ymrwymiad i ddod o hyd i ddull priodol i gymhell diwydiant i ddatgarboneiddio - gyda'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol.

- 3.15 Mae'r sector Adeiladau yn cwmpasu allyriadau o wresogi, goleuo a choginio. Y brif ffynhonnell allyriadau yw adeiladau preswyl, sy'n cyfrif am 82% o allyriadau'r sector Adeiladau a 7.5% o gyfanswm allyriadau Cymru⁶⁷. Mae'r Cynllun yn cefnogi lleihau'r galw drwy adeiladau newydd ac ôl-osod, cefnogi newid ymddygiad, a chefnogi cynnydd mewn gwres carbon isel - gan ddangos effeithiau cadarnhaol cyffredinol yn y sector adeiladau. Mae safonau a rheoliadau'n sicrhau bod mesurau lliniaru i leihau allyriadau'n cael eu gweithredu - mae Rheoliadau Adeiladu'n rheoli gwaith adeiladu newydd gyda'i gyfleoedd i ymgorffori systemau ynni effeithlon iawn - ac mae'n cynnwys cynnig i bennu safonau uwch a fyddai'n gwella cyfraniad y sector hwn i gyflawni targedau. Y polisi allweddol i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau cyfredol yw Safonau Ansawdd Tai Cymru ac mae hwn yn dangos effeithiau cadarnhaol.
- 3.16 Gan fod tua 1 o bob 5 o gartrefi Cymru heb gysylltiad â'r grid nwy, cyfran uwch na'r DU yn gyffredinol, bydd angen i fwy o gartrefi Cymru gael atebion gwresogi carbon isel unigol. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod gwresogi'n rhan fawr o'r her datgarboneiddio, ac yn cydnabod bod yr angen i oeri'n debygol o gynyddu - felly mae angen mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol a nodwyd. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen newidiadau mewn ymddygiad i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ac mae polisiau fel Cymorth i Brynu, a Systemau Clyfar yn cynnwys cymorth ar gyfer arbedion ynni gydag effeithiau cadarnhaol.
- 3.17 Y sector Trafnidiaeth oedd yn gyfrifol am 14% o allyriadau Cymru yn 2016, sy'n sylweddol is na chyfartaledd y DU o 33%; fodd bynnag, trafndiaeth yw'r trydydd sector uchaf o ran allyrru carbon yn dilyn pŵer a diwydiant - ac mae hyn yn gysylltiedig â thrafnidiaeth ffyrdd yn bennaf. Mae'r sector trafndiaeth yn effeithio ar bob sector arall a ffactorau cynaliadwyedd, gydag effeithiau sylfaenol a rhyngweithiau ar gyfer datblygu datgarboneiddio a Thwf Glân. Mae tueddiadau cyfredol yn awgrymu, er gwaethaf y cynnydd yn y defnydd o drenau, mai cerbydau preifat fydd yn parhau i fod y prif ddull trafndiaeth yng Nghymru - o leiaf yn y tymor byr i'r hirdymor⁶⁸ - ac mae hyn yn nodwedd arbennig i Gymru gyda thrigolion gwledig yn teithio cyfran uwch o bellter ar ffyrdd gwledig.
- 3.18 Nid oes gan rannau mawr o Gymru y seilwaith cefnogol sydd ei angen ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan – mae'r Cynllun yn cydnabod hyn

⁶⁷ Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales and N Ireland 1990-2016, ar gael yn http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=3

⁶⁸ Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiadau Tueddiadau'r Dyfodol

gyda'r angen i integreiddio datblygiad polisi rhwng trafndiaeth a phŵer, gan nodi bod mesurau lliniaru'n cael eu cynllunio i helpu i ddatrys effeithiau negyddol yn yr hirdymor. Mae polisiâu cyfredol yn ceisio cynyddu Teithio Llesol (cerdded a beicio) a chynyddu teithio ar drenau a bysiau. Mae Polisi Cynllunio Cymru⁶⁹ a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys gofynion i leihau dibyniaeth ar geir preifat, cefnogi symudiad moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, a chynllunio ar gyfer datblygiad newydd mewn modd sy'n cydleoli cyflogaeth, tai a hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau – gan gael effeithiau cadarnhaol ar gyfer newid i garbon isel.

- 3.19 Gwastraff oedd i gyfrif am 3% o allyriadau Cymru yn 2016. Mae gan Gymru fframwaith polisi sydd wedi magu ei blwyf gyda safonau, targedau a rheoliadau ar gyfer rheoli gwastraff sydd eisoes wedi cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd drwy gynyddu ailgylchu gwastraff trefol i 63% yn 2018, gyda llai na 10% yn mynd i safleoedd tirlenwi. Bydd y polisiâu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy o wastraff - treulio gwastraff bwyd yn anaerobig, adfer pren gwastraff mewn planhigion bio-màs, adfer ynni o wastraff gweddilliol, a defnyddio nwy tirlenwi - i gyd yn cyfrannu at ostyngiadau cyffredinol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effeithiau cadarnhaol.
- 3.20 Nod yr ymrwymiad polisi yw symud tuag at economi gylchol (effeithlon o ran adnoddau) drwy ddatgarboneiddio cynhyrchion a gynhyrchwyd yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn egluro sut bydd hyn yn golygu defnyddio llai o ddeunyddiau crai wrth gynhyrchu a defnyddio; bydd deunyddiau gwastraff yn cael eu defnyddio'n gynyddol, a bydd ymgais i leihau allyriadau carbon seiliedig ar ddefnydd a fewnforiwyd – gyda'r cyfan â'r potensial i sicrhau effeithiau cadarnhaol yn yr hirdymor. Byddwn yn ymgynghori ar y Strategaeth Wastraff newydd yng Ngwanwyn 2019 ac mae'n cynnwys cynigion a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar garbon isel drwy uchelgeisiau i haneru gwastraff bwyd a thargedau newydd ar gyfer ailgylchu trefol.
- 3.21 Mae'r Cynllun yn egluro mai dim ond y sector Defnydd Tir a Choedwigaeth sydd â'r capasiti i gael gwared ar garbon deuocsid o'r atmosffer i helpu i ddatrys effeithiau allyriadau'r gorffennol - mae pob sector arall yn canolbwyntio ar leihau allyriadau'r dyfodol. Mae'r capasiti hwn i weithredu fel dalfa garbon yn deillio'n bennaf wrth i dir coedwigaeth dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer ac mae'r sector hwn yn ceisio cynyddu'r ddalfa'n sylweddol, yn unol ag argymhellion Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r holl bolisiâu cyfredol, yn cynnwys y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, Polisi Cynllunio Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Strategaeth Coetiroedd Cymru (diweddarwyd Mehefin 2018)⁷⁰ yn ceisio cynyddu coetiroedd gydag effeithiau cadarnhaol tebygol.
- 3.22 Fodd bynnag, gall y sector gyfrannu at allyriadau hefyd - drwy droi glaswelltir yn dir cnydau ac i aneddiadau. Mae'r Cynllun, gyda chyfyngiadau a thargedau - yn cynnwys y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, Polisi

⁶⁹ <https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru-argraffiad-10?>

⁷⁰ <https://beta.llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-strategaeth?>

Cynllunio Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Strategaeth Coetiroedd - yn ceisio lleihau'r allyriadau hyn drwy ddarparu mesurau lliniaru. Yn gyffredinol, mae'r posibiladau unigryw o newid defnydd tir a choedwigaeth i wella gostyngiad net yn allyriadau Cymru yn dangos y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol iawn a fydd yn gronol yn yr hirdymor.

- 3.23 Mae cyfradd y plannu wedi bod yn llai na'r gobaiith hyd yn hyn, oherwydd pryderon tiffeddianwyr yn rhannol. Bydd y cynnig i nodi ardaloedd a ffefrir i blannu coed, yn cynnwys coetiroedd masnachol a phlannu ar raddfa ganolig yn rhoi sicrwydd i dirfeddianwyr ac ymgeiswyr gyda'r potensial am effeithiau cadarnhaol sylweddol yn yr hirdymor. Mae'r Cynllun a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi defnydd gwerth uwch o adnoddau pren, yn enwedig wrth adeiladu tai o ansawdd uchel - ond nid yw'n glir sut byddai hyn yn cael ei weithredu, felly mae peth ansicrwydd ynghylch effeithiau cadarnhaol yn y cam cynnar hwn o'r Cynllun.
- 3.24 Amaethyddiaeth oedd i gyfrif am 12% o allyriadau Cymru yn 2016. Allyriadau methan, o ddefaid a gwartheg yn bennaf, yw'r mwyafrif. Mae defnyddio gwrtaiith ar gyfer priddoedd amaethyddol yn ffynhonnell sylweddol arall o allyriadau, ac i gyfrif am tua 21% o allyriadau amaethyddol⁷¹. Mae'r holl bolisiau yn cynnwys Rhaglen Datblygu 2014-20, Rhaglen Cig Coch 2018-23, Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, Cyswllt Ffermio 2015-19, y Grant Busnes i Ffermydd, Fforwm Rheoli Tir Cymru a chyllid Glastir yn ceisio cefnogi amaethyddiaeth yn cynnwys cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant da byw a gwella rheolaeth priddoedd/maetholion. Mae'r Cynllun yn cydnabod y bydd parhau i ddarparu data a chydweithio â ffermwyr yn allweddol i ddeall sut gall y sector ddod yn garbon isel gan ddangos bod mesurau lliniaru'n cael eu hystyried i leihau effeithiau negyddol ar yr economi ffermio ac amcanion cyflogaeth.
- 3.25 Yn gyffredinol, mae dull a strwythur y Cynllun, gyda themâu cyffredinol ar gyfer Twf Glân ac Integreiddio ar draws pob sector, ynghyd ag Arweinyddiaeth, Cydweithio a Chynnwys – ynghyd â pholisi manwl a gwybodaeth sy'n berthnasol i bob sector – yn dangos effeithiau cadarnhaol annog a chefnogi'r ymdrech am dwf cynaliadwy a'r ymgyrch i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun yn datgan yn glir rôl polisiau cyfredol hyd 2020 ac yn awgrymu cynigion y gellid eu hymchwilio ymhellach er mwyn gwella darpariaeth carbon isel yn y cam cynllunio nesaf.

Iach ac Egniol

Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- 4 Cyfrannu at wella iechyd da a llesiant i bawb
- 5 Cyfrannu at greu cymunedau mwy iach a gwella cydlyniant cymdeithasol a chydaddoldeb
- 6 Cyfrannu at greu amgylcheddau gwell

⁷¹ Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales and N Ireland 1990-2016, available at http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=3

- 3.26 Gall cyflawni carbon isel effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol a llesiant cyffredinol drwy newidiadau i gostau ynni, nifer a mathau o swyddi, a pherygl i iechyd yn sgil newid yn yr hinsawdd - gwres, tywydd eithafol, niwed oherwydd erydu, llifogydd a gwynt. Cyflogaeth, gydag incwm gweddus a thai, yw un o benderfynyddion pwysicaf iechyd corfforol a meddyliol⁷²; mae gan bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am amser hir ddisgwyliad oes is ac iechyd gwaeth na'r rhai mewn gwaith. Ffocws y Cynllun yw y dylid datgarboneiddio heb golli gallu busnesau i gystadlu gan nodi bod mesurau lliniaru ar waith i leihau effeithiau negyddol posibl ar iechyd yn sgil colli gwaith.
- 3.27 Mae safon iach o fyw yn gysylltiedig â llawer o ganlyniadau iechyd cadarnhaol. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn gryf gan y Cynllun ac mae polisiâu cyfredol fel y Rhaglen Cartrefi Cynnes wedi dangos eu bod yn mynd i'r afael â chyflyrau iechyd cronig cartrefi sy'n cymryd rhan - gan leihau pwysau hirdymor ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i weld beth yw manteision ehangach a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gynyddu'r rhaglen ôl-osod gan ddangos effeithiau cadarnhaol pellach.
- 3.28 Mae polisiâu cyfredol yn ceisio cynyddu Teithio Llesol (cerdded a beicio) a mwy o ddefnydd o drenau a bysiau. Mae Polisi Cynllunio Cymru⁷³ a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys gofynion i leihau dibyniaeth ar geir preifat, yn cefnogi newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad newydd fel bod cyflogaeth, tai a hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau yn cael eu cydleoli a'u hintegreiddio gyda chymunedau cyfredol - â'r cyfan â'r potensial i gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant a fydd yn synergaid a chronnol yn yr hirdymor.
- 3.29 Mae gan bolisiâu cyfredol yn cynnwys y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol rôl gref i gynyddu cysylltedd a hygyrchedd o fewn ardaloedd trefol a chysylltu ag ardaloedd gwledig - gyda'r cyfan â'r potensial i gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant a fydd yn synergaid a chronnol yn yr hirdymor.
- 3.30 Mae'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol⁷⁴ yn ganolog i'r Cynllun, gan gydnabod ei fod yn bolisi trawsbynciol gyda'r holl sectorau a rhanddeiliaid. Mae'r cysylltiadau cryf rhwng bioamrywiaeth a chyfyngu ar y newidiadau i hinsawdd wedi'u hegluro'n glir - bydd lleihau allyriadau'n cefnogi bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithio'n dda (tir a môr) a bydd hyn y ei dro yn meithrin cydnheredd, yn cefnogi bywoliaethau ac iechyd a llesiant.

⁷² Er enghraifft, gweler <https://www.gov.uk/government/publications/health-profile-for-england/chapter-6-social-determinants-of-health#employment>

⁷³ <https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru-argraffiad-10?>

⁷⁴ <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/natural-resources-policy/?lang=cy>

- 3.31 Mae'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy. Methodd Cymru, a gweddill y DU a gwledydd eraill, i gyrraedd ei thargedau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol⁷⁵ ac mae cydnerthedd ecosystemau Cymru'n parhau i ddirywio (SoNaRR 2016)⁷⁶. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod rhaid ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol mewn polisïau a chamau gweithredu ar gyfer y llwybr carbon isel hyd at 2050 ac y bydd y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn arwain camau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru - gan ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl.
- 3.32 Mae'r Cynllun yn cydnabod y bydd datblygu technolegau adnewyddadwy a charbon isel yn cael effeithiau cadarnhaol ar gynaliadwyedd amgylcheddol drwy helpu i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw ddatblygiad, gallant gael effeithiau negyddol ar ansawdd amgylcheddol a rheoli adnoddau naturiol, er enghraifft, prosiectau gwynt ar dirwedd/morwedd; tonnau/llanw ar fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau; ffermydd solar gyda'u heffeithiau gweledol, yn enwedig effeithiau cronol mewn ardaloedd gwledig sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu cyfleoedd hamdden a thwristiaeth; pryderon am reoli gwastraff niwclear. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ba fath o ddatblygiad adnewyddol a charbon isel ydyw, a'i leoliad.
- 3.33 Mae'r Cynllun yn dangos bod yna fecanweithiau amrywiol cryf yn bodoli o safbwynt safonau, rheoliadau a pholisïau, yn cynnwys trwy Bolisi Cynllunio Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a chynlluniau rheoli basn afonydd, i ymchwilio i ac osgoi neu lliniaru effeithiau negyddol, a mynd ar drywydd synergeddau i helpu i fanteisio ar gyfleoedd fel gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd sydd â manteision ehangach i bobl a bywyd gwyllt. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod morlin Cymru wedi'i ddynodi'n drwm i warchod yr amgylchedd unigryw sy'n dangos bod mesurau lliniaru ar waith.
- 3.34 Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi wedi'i chadarnhau⁷⁷ na fydd unrhyw ddatblygiadau petrolewm newydd yn cael eu trwyddedu ar y tir yng Nghymru, nac unrhyw gefnogaeth i ffracio – gyda phob un o'r rhain yn darparu mesurau lliniaru cryf ar gyfer effeithiau negyddol ar adnoddau ac ansawdd amgylcheddol. Mae cloddio am danwydd ffosil ar waelod yr hierarchaeth ynni ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n sicrhau mesurau lliniaru pellach. Mae'r hierarchaeth ynni'n dangos effeithiau cadarnhaol posibl ar gyfer amcanion amgylcheddol.

Uchelgeisiol ac yn Dysgu

⁷⁵ Cyfo

⁷⁶ <https://beta.llyw.cymru/polisi-echdynnu-petrolewm-yng-nghymru?>

[natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources](https://beta.llyw.cymru/polisi-echdynnu-petrolewm-yng-nghymru?)

⁷⁷ <https://beta.llyw.cymru/polisi-echdynnu-petrolewm-yng-nghymru?>

Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd:

7 Cyfrannu at sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid ac annog dysgu am oes

- 3.35 Mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen i ni sicrhau bod gan bawb y sgiliau ar gyfer byd sy'n newid ac mae'r cynllun cyntaf yn ymrwmo i ddechrau gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol⁷⁸ i ganolbwyntio ar sectorau twf blaenoriaeth a nodwyd yn y rhanbarthau; hefyd, i archwilio bylchau mewn sgiliau a hyblygrwydd gan weithio'n agos gyda chyflogwyr, a helpu i baratoi'r cenedlaethau nesaf. Nid yw hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol yn ystod oes y cynllun cyntaf hwn, felly effeithiau niwtral a nodwyd yn y tymor byr, ond mae effeithiau cadarnhaol bach wedi'u nodi os bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen yn bendant yn rownd nesaf y cynllunio.
- 3.36 Mae'r Cynllun yn cydnabod bod canllawiau a hyfforddiant yn hanfodol i ddatblygu'r gwaith o newid i garbon isel. Datblygwyd nifer o adnoddau eisoes yn y sector cyhoeddus a bydd Pecyn Cymorth Datgarboneiddio drwy Gaffael yn cael ei sefydlu maes o law. Mae gan Arloesedd a Mentrau gyfraniad cryf i'w wneud i baratoi pawb ar gyfer sgiliau newid ac, er enghraifft, mae llawer o brosiectau Arddangos Byw yn Glyfar yn cynnwys cydweithio gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Bydd y cynnig i gynnal Cynhadledd Flynyddol a sefydlu Grŵp Cynghori 'Climate Just' yn cyfrannu ymhellach at uwchsgilio gan gael effeithiau cadarnhaol.

⁷⁸ <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol>

Unedig a Chysylltiedig

Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- 8 Helpu i ddatblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnherth
- 9 Cyfrannu at ddarparu seilwaith modern a chysylltiedig
- 10 Cyfrannu at hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

- 3.37 Mae cydweithio â busnes ac â'r Trydydd Sector, a gweithio gyda phobl, yn ganolog i'r Cynllun – gan gydnabod bod yr effeithiau'n gallu bod yn eang ac y byddant yn drawsbynciol. Mae'r polisi i sefydlu Grŵp Cyngori 'Climate Just' yn 2019 yn gwneud ymrwymiad clir i gynnwys pobl drwy ymgysylltu â dinasyddion gydag effeithiau cadarnhaol yn debygol o gefnogi mwy o gymunedau cydnherth sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am newid yn yr hinsawdd a'r newid i garbon isel. Mae'r ymrwymiad i 2019 yn golygu y bydd y polisi'n cael ei weithredu yn amserlen y Cynllun gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar gyfer Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cydlyniant a chydnerthedd cymunedol.
- 3.38 Mae parhau â'r polisi ar leihau allyriadau o Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig yn cyfannu at leihau ôl-troed carbon ac yn gwarchod asedau treftadaeth a'r ardaloedd o'u hamgylch – gyda'r cyfan yn cyfrannu at effeithiau cadarnhaol i asedau a hunaniaeth diwylliannol. Mae yna dystiolaeth gref i awgrymu bod mynediad i fannau gwyrdd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant corfforol a meddyliol drwy fynediad a defnydd corfforol⁷⁹. Mae gan y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol rolau cryf i gydgysylltu datblygiad effeithiol y seilwaith gwyrdd, yn cynnwys cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a chysylltedd gwell â rhwydweithiau trafniadaeth cynaliadwy.
- 3.39 Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r newidiadau i'r sector trafniadaeth drwy fabwysiadu Cerbydau Allyriadau Isel a'r disgwylid i gerbydau awtomatig ddod yn gyffredin mewn ardaloedd trefol yn y 2020au. Mae'n cydnabod bod hyn yn darparu heriau a chyfleoedd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd wahanol. Cydnabyddir y bydd arweiniad ac arloesedd yn yr agwedd hon ar gyfer y sector cyhoeddus yn cymryd cryn amser ac mae'r cynllun yn cynnwys cynnig i holl geir newydd a cherbydau nwyddau mawr yn fflyd y sector cyhoeddus fod yn rhai allyriadau isel iawn erbyn 2025, a lle bo'n bosibl, i'r holl gerbydau nwyddau trwm fod yn rhai allyriadau isel iawn erbyn 2030. Mae'r Cynllun yn egluro'r problemau sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn a bydd hyn yn destun ymchwil pellach drwy rownd nesaf y cynllunio; gellir profi opsiynau rhesymol sy'n datblygu drwy Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 3.40 Mae rheoleiddio sectorau diwydiant yn helpu i gyflawni targedau a chontractau a fydd yn cyfrannu at reoli peryglon drwy ddifrod yn sgil erydu,

⁷⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/health-profile-for-england/chapter-6-social-determinants-of-health#sustainable-communities-and-places>

llifogydd neu gan wynt i seilwaith allweddol – ynni, trafndiaeth a digidol – gan helpu i sicrhau cydnerthedd a chyda'r potensial i arwain at effeithiau cadarnhaol. Mae gan gynllunio gofodol a morol gyfraniadau pwysig i'w gwneud i gefnogi amcanion gyda photensial am effeithiau cadarnhaol ar gyfer cydnerthedd/cysylltedd seilwaith a meithrin cymunedau iachach – gyda'r potensial am effeithiau cadarnhaol.

- 3.41 Bydd Arloesedd a mentrau, a all olygu gwahanol ffyrdd o feddwl a byw, yn hanfodol i gyflwyno seilwaith cydnerth - trafndiaeth neu ddigidol – ac mae ganddynt y potensial i gael effeithiau cadarnhaol yn y tymor hwy trwy hyrwyddo trafndiaeth integredig fwy cynaliadwy gyda seilwaith gwyrdd, diogelwch a chydnerthedd y seilwaith allweddol, a gwelliannau i hygyrchedd digidol, gan gynnwys wrth fynd a dod. Drwy ddangos arweinyddiaeth gref, cydweithio a chyfranogi drwy'r sector cyhoeddus ar gyfer y newid i garbon isel gyda chynhyrchion, prosesau a gwasanaethau, mae yna botensial am effeithiau cadarnhaol sy'n cyfrannu at hyrwyddo lle Cymru yn y byd.

Arfarniad o Gynaliadwyedd Cryno o weithredu Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel

- 3.42 Mae crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i'w weld yn Nhabl 3.2. Roedd y categorïau arwyddocâd a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:

Tabl 3.1: Allwedd Arwyddocâd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

| Categoriâu Arwyddocâd Effeithiau | | |
|---|-----------------------|--|
| Symbol | Ystyr | Effaith ar Gynaliadwyedd |
| ++ | Cadarnhaol iawn | Annog cynnig neu bolisi gan y byddai'n datrys problem gynaliadwyedd gyfredol |
| + | Ychydig yn gadarnhaol | Dim cyfyngiadau cynaliadwyedd a chynnig neu bolisi'n dderbyniol |
| 0 | Niwtral | Effaith niwtral |
| ? | Ansicr | Effeithiau Ansicr neu Anhysbys |
| - | Ychydig yn negyddol | Problemau cynaliadwyedd posibl: lliniaru a/neu drafod posibl |
| -- | Negyddol iawn | Problemus ac annhebygol oherwydd problemau cynaliadwy hysbys; lliniaru'n debygol o fod yn anodd a/neu ddud |

Tabl 3.2: Arfarniad o Gynaliadwyedd Cryno o weithredu'r Cynllun

| | Themâu allweddol y Rhaglen Lywodraethu | | | | | | | | | |
|--|---|-----------------------------|--|---------------------|--------------------------|----------------------|-------------------|------------------------|--------------------------|-----------------------|
| | Ffyniannus a Diogel | | Iachus | | Uchelgeisiol ac yn Dysgu | | | Unedig a Chysylltiedig | | |
| | Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (2016-20) | | | | | | | | | |
| Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel | 1 Annog Ffyniant | 2 Cefnogi Cyflogaeth i bawb | 3 Mynid i'r afael â newid yn yr hinsawdd | 4 Iechyd a Llesiant | 5 Cymunedau Iachus | 6 Amgylcheddau gwell | 7 Sgiliau a Dysgu | 8 Cymunedau Cryf | 9 Seilwaith Cysylltiedig | 10 Lle Cymru yn y byd |
| Gweledigaeth | ++ | + | ++ | + | ++ | ++ | 0 | ++ | + | +? |
| Arweiniad, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + | 0 | 0 |
| Pŵer | + | +? | + | + | +? | + | 0 | + | + | +? |
| Diwydiant | + | +? | + | + | 0 | + | 0 | + | + | +? |
| Adeiladau | 0 | 0 | + | ++ | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trafnidiaeth | + | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwastraff | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnydd Tir a Choedwigaeth | 0? | +? | + | + | + | + | + | 0 | + | 0 |
| Amaethyddiaeth | + | + | + | + | +? | + | + | 0 | 0 | 0 |
| Dull methodolegol | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + |

- 3.43 Roedd polisiâu cyfredol yn y Cynllun yn amodol ar ofynion Llywodraeth Cymru ynghylch asesu effaith yn ystod eu datblygiad i nodi a datrys effeithiau negyddol posibl. Felly, ac fel y gellid disgwyl, nid oedd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol wedi'u nodi gyda gweithredu'r Cynllun.
- 3.44 Mân effeithiau cadarnhaol a nodwyd yn bennaf, ac mae hyn yn adlewyrchu'r dulliau polisi parhaus sy'n ceisio hyrwyddo datgarboneiddio a newid i garbon isel tra'n diogelu gweithgarwch economaidd ac adnoddau naturiol pwysig. Adroddwyd peth ansicrwydd ynghylch arwyddocâd effeithiau cadarnhaol o'r fath yn y cam cynnar hwn o gyflawni carbon isel, er enghraifft, sut bydd cefnogaeth effeithiol ar gyfer mwy o goetiroedd, coedwigoedd a phren ar gyfer tai yn datblygu yn y tymor byr. Roedd effeithiau eraill yn ddibwys neu'n debygol o fod yn niwtral gan nad oeddynt yn uniongyrchol berthnasol.
- 3.45 Nodwyd effeithiau cadarnhaol iawn gan y dulliau trawsbynciol cyffredinol yn y Cynllun ac, yn arbennig ar gyfer Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar annog ffyniant a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Nodwyd effeithiau cadarnhaol pellach ar gyfer Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer cymunedau iach a mwy cydnerth ac amgylcheddau gwell sy'n debygol o fod yn synergaid a chronnol yn y tymor hwy wrth i arloesedd, gwybodaeth a gweithredu'r gymdeithas carbon isel ddod yn fwy normal.
- 3.46 Nodwyd effeithiau cadarnhaol mawr ar gyfer datblygu safon iach o fyw drwy ddatblygu polisiâu i ymdrin ag ansawdd tai, gwres ac i fynd i'r afael ag allyriadau o adeiladau. Mae'r posibiladau unigryw a ddaw o goedwigaeth, defnydd tir a newid defnydd tir i wella gostyngiad net yn allyriadau Cymru yn dangos y potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol mawr a fydd yn gronol yn yr hirdymor.

Awgrymiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel

- 3.47 Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol felly nid oes argymhellion yn codi o'r Arfarniad. Gwnaeth yr Arfarniad rai awgrymiadau i'r Cynllun a allai helpu i wella llesiant a datblygu cynaliadwy neu gyfrannu at y rownd nesaf o gynllunio a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd nesaf, fel a ganlyn:
- Gallai cynllunio gofodol a morol gyfrannu'n sylweddol at gefnogi datblygiad system aml-fector gydag ynni'n cael ei drosi i wahanol ffurfiau i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, yn hytrach na'r model cyfredol gyda system ar wahân a chanolog; gallai'r system hon asio'n gadarnhaol â chynhyrchu a defnydd rhanbarthol/lleol o ynni, yn cynnwys y cynigion ar gyfer Dinas-ranbarthau; byddai'n rhaid rhoi sylw i'r effeithiau ehangach ar gontractau ac ar y farchnad drydan.
 - Gallai'r Grŵp Arloesedd Gorchwyl a Gorffen sydd i'w sefydlu yn 2019 fod yn allweddol i helpu i fynd i'r afael â chymhlethdodau datgarboneiddio gyda Thwf Glân; nodi a hyrwyddo'r dulliau arloesol hynny sy'n briodol i Gymru (cenedlaethol a rhanbarthau); a nodi'r agweddau hynny a allai gefnogi Cymru fel arweinydd byd-eang ym maes carbon isel. Gydag arian yn brin, mae'n rhaid dewis pa

arloesedd sy'n derbyn cymorth yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau'r manteision gorau posibl. Felly, awgrymir bod y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp yn cynnwys ffyrdd o weithio, fel defnyddio technegau amharu a newid, a all helpu i ysgogi'r dulliau radical a'r meddylfryd a fydd ei angen yn ôl y Cynllun.

- Gall y Cynllun helpu i sicrhau bod targedau, safonau a rheoleiddio'n hwyluso synergeddau ar gyfer carbon isel, gan gydnabod y cysylltiadau rhwng cynllunio morol a gofodol a hyrwyddo cynhyrchu a defnydd rhanbarthol/lleol o ynni carbon isel.
- Mae gan gynllunio gofodol a morol gyfle i ganfod cysylltiadau sy'n sicrhau cymaint o gyflogaeth â phosibl gan integreiddio rhwng swyddi morol a thir - ac mae hyn yn gofyn am gynllunio strategol gydag amcanion trafndiaeth gynaliadwy; gallai'r gofynion cyffredinol ar gyfer economi carbon isel helpu i gydgyssylltu ac arwain yn yr hirdymor.
- Dylid bwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu Grŵp Datgarboneiddio dan arweiniad y Diwydiant yn 2019 gan fod hyn yn dangos ymrwymiad i helpu i ddatrys y problemau sy'n wynebu'r rhai sy'n cael eu herio fwyaf gan ddatgarboneiddio.
- Mae'r cynnig i ystyried tystiolaeth ynghylch dewisiadau teithio pobl yn ymddangos yn dystiolaeth hanfodol ac mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn awgrymu y dylai'r Cynllun nodi'n glir y bydd hyn yn digwydd yn 2019; bydd tystiolaeth o'r fath hefyd yn sail i gynllunio gofodol a morol, a chynlluniau trafndiaeth ehangach.
- Mae'r Cynllun yn cynnwys y cynnig i gynyddu plannu coed ac mae hyn yn cynnwys nodi gwaith cynnal a chadw cynhyrchion adnewyddadwy fel pren a ffibr coed. Mae'r Cynllun a'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi defnydd gwerth uwch o adnoddau pren, yn enwedig wrth adeiladu tai o ansawdd uchel - ond nid yw'n glir sut byddai hyn yn cael ei weithredu, felly mae ansicrwydd ynghylch yr effeithiau cadarnhaol . Felly, awgrymodd yr Arfarniad y gellid gwneud y bwriad hwn yn fwy clir - efallai gyda thargedau a/neu gysylltiadau â chanllawiau dylunio.

Sut ystyriwyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn

- 3.48 Canfu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y bydd y Cynllun yn cael effeithiau cadarnhaol ar y newid i garbon isel. Bydd angen lliniaru effeithiau negyddol posibl ar yr economi/cyflogaeth ac adnoddau naturiol/ecosystemau drwy gael polisiau cryf yn cynnwys safonau, rheoliadau a thargedau perthnasol i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Bydd yr awgrym o'r Arfarniad am ymrwymiad clir i addysgu pobl ifanc am garbon isel yn cael ei ddatblygu ac mae'n cyd-fynd ag adborth yr ymgynghoriad yn ystod 2018. Bydd awgrymiadau eraill yr Arfarniad yn cael eu hystyried yng ngham nesaf y cynllunio.

4.0 CASGLIADAU A CHAMAU NESAF

- 4.1 Yn unol â chyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd a chan gydnabod ein bod dros hanner ffordd drwy gyfnod cyntaf y gyllideb garbon, ychydig o gyfle sydd am gamau gweithredu polisi newydd i effeithio ar allyriadau hyd at 2020. Felly, bydd y gyllideb gyntaf yn cael ei chyflawni drwy bolisiau cyfredol sydd wedi bod yn ddarostyngedig i ofynion Llywodraeth Cymru am asesiadau effaith yn ystod eu datblygiad. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau cyfredol ac yn awgrymu cynigion ar gyfer polisiau'r dyfodol a fydd yn cael eu hystyried ymhellach yn y rownd gynllunio nesaf.
- 4.2 O ganlyniad, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gyfyngedig i raddau o ran yr hyn a all asesu. Er enghraifft, nid oes opsiynau realistig amgen i ymchwilio drwy Arfarniad o Gynaliadwyedd yn y cam cychwynnol hwn o gynllunio cyflawniad carbon isel. Serch hynny, roedd yr Arfarniad hwn yn ceisio ystyried effeithiau gweithredu'r casgliad o bolisiau yn y Cynllun ac yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y nod oedd gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella cynaliadwyedd, lle bo'n bosibl, ac yn enwedig ar gyfer cynigion am bolisiau yng nghynlluniau'r dyfodol.
- 4.3 Mae polisiau'r Cynllun wedi'u profi drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol, naill ai'n unigol neu wrth ystyried rhyng-gysylltiadau ac effeithiau cronol. Rhagwelwyd bod llawer o'r effeithiau a nodwyd yn rhai ychydig yn gadarnhaol a chanfuwyd bod rhai ag effeithiau dibwys neu niwtral. Nodwyd effeithiau cadarnhaol iawn drwy ddulliau cyffredinol y Cynllun. Er bod yr holl ffactorau wedi'u cysylltu ac yn drawsbynciol, mae'r problemau penodol ar gyfer cynhyrchu ynni a thrafnidiaeth wedi'u nodi.
- 4.4 Yn gyffredinol, mae'r Cynllun wedi nodi polisiau a chynigion cyfredol i gyflawni'r gyllideb garbon gyntaf. Wrth ddatblygu'r cynllun cyntaf, dewiswyd polisiau a chynigion a fyddai'n lleihau'r potensial am effeithiau negyddol ac yn ceisio hyrwyddo effeithiau cadarnhaol. Mae'n cynnwys cynigion ar gyfer system fonitro, adrodd a gwirio i olrhain cynnydd y Cynllun. Ystyrir nad oes angen monitro'r Arfarniad ymhellach.
- 4.5 Mae strwythur yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chysoni fframwaith yr Arfarniad gyda'r manylion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn sail i waith paratoi Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2018 yn darparu asesiad annibynnol a gwrthrychol o'r Cynllun ac yn helpu i ddangos bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ffurfio rhan annatod o baratoi'r Cynllun, gan ei ymgorffori yn natblygiad polisi'r dyfodol.
- 4.6 Bydd y Cynllun a'r Adroddiad hwn ar yr Asesiad o Gynaliadwyedd yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2019. Yna bydd gwaith yn parhau i baratoi'r adroddiad nesaf ar bolisiau a chynigion ar gyfer 2021-2025, gan ystyried canlyniadau'r adolygiad a'r monitro, rhagolygon parhaus, a'r dystiolaeth ddiweddar, a bydd yn cynnwys ymchwilio i opsiynau ar gyfer camau gweithredu polisi'r dyfodol a'u profi drwy Arfarniad o Gynaliadwyedd.